



Department  
for Environment  
Food & Rural Affairs



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Mesurau rheoli Rhywogaethau Goresgynnol Estroen sydd wedi lledaenu'n eang yng Nghymru a Lloegr

**Gorffennaf 2019**



© Hawlfraint y Goron 2019

Mae'r wybodaeth hon wedi'i thrwyddedu o dan Drwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0. I weld y drwydded hon, ewch i [www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/](http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/)

Mae'r cyhoeddiad hwn i'w gael yn [www.gov.uk/government/publications](http://www.gov.uk/government/publications)

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn, anfonwch nhw at:

[consultation.coordinator@defra.gov.uk](mailto:consultation.coordinator@defra.gov.uk)

[www.gov.uk/defra](http://www.gov.uk/defra)

## Cynnwys

Cyflwyniad .....	1
Rheoliad Rhywogaethau Goresgynnol Estron yr UE (1143/2014).....	1
Rhywogaethau o bryder i'r Undeb sydd wedi lledaenu'n eang yng Nghymru a Lloegr .....	2
Planhigion .....	3
Anifeiliaid.....	3
Gorchymyn Rhywogaethau Goresgynnol Estron (Gorfodi a Thrwyddedu) 2019 .....	3
Mesurau rheoli.....	4
Nodau rheoli.....	4
Gofynion pellach mewn perthynas â mesurau rheoli.....	4
Camau rheoli.....	5
Mathau o fesur rheoli.....	6
Mesurau rheoli cyffredinol .....	6
Mesurau rheoli trwyddadwy.....	7
Canllaw i Atodiadau .....	7
Atodiad A – Nodau mesurau rheoli.....	8
Planhigion .....	8
Anifeiliaid.....	8
Atodiad B – Cynigion ar gyfer mesurau rheoli cyffredinol .....	10
Mesurau rheoli cyffredinol ar gyfer pob rhywogaeth.....	10
Mesurau rheoli cyffredinol ychwanegol ar gyfer rhywogaethau planhigion.....	11
Mesurau rheoli cyffredinol ychwanegol ar gyfer rhywogaethau anifeiliaid .....	13
Atodiad C – Cynigion ar gyfer mesurau rheoli trwyddadwy.....	13
Mesurau ar gyfer rheoli'r trwyddedadwy rhywogaethau planhigion.....	14
Mesurau ar gyfer rheoli'r trwyddedadwy rhywogaethau anifeiliaid .....	15

Atodiad D – Mesurau rheoli trwyddadwy arfaethedig sy'n ymwneud â'r Cimwch afon arwyddol ( <i>Pacifastacus leniusculus</i> ) .....	16
Cyflwyniad .....	16
Sut y rheolir cimychiaid afon America yng Nghymru a Lloegr ar hyn o bryd .....	18
Newidiadau i'r drefn reoli gyfredol ar gyfer cimychiaid afon America a ddaw i rym o dan Orchymyn Gorfodi .....	20
Cynigion ar gyfer Mesurau Rheoli .....	21
Trefn reoli newydd arfaethedig .....	23
Cynigion ar gyfer trwyddedau trapio a mesurau rheoli y gellir eu trwyddedu .....	24
Cynigion yn ymwneud ag ardaloedd ynysu .....	24
Cynigion ar gyfer Ardaloedd dan Waharddiad .....	25
Cynigion pellach ar gyfer ardaloedd ynysu a dan waharddiad .....	27
Cynigion ynghylch amodau'r drwydded .....	27
Cynigion ar gyfer defnyddio sbesimenau byw .....	28
Diagram o gynigion ar gyfer trwyddedau trapio .....	34
Diagram o gynigion ar gyfer trwyddedau mesurau rheoli .....	35
Atodiad E – Cwestiynau'r ymgynghoriad .....	36
C1. A hoffech chi i'ch ymateb fod yn gyfrinachol? .....	36
C2. Beth yw eich enw? .....	36
C3. Beth yw eich cyfeiriad e-bost? .....	36
C4. Pwy ydych chi'n ei gynrychioli? .....	36
C5. Pa ranbarth daearyddol mae eich ymatebion chi'n ymwneud ag ef? .....	37
C6. Beth yw eich barn ar y nodau arfaethedig ar gyfer y mesurau rheoli sydd yn Atodiad A? .....	38
C7. Beth yw eich barn ar y mesurau rheoli cyffredinol sydd yn Atodiad B? .....	38
C8. Oes yna gamau gweithredu ychwanegol y dylid eu caniatáu fel mesur rheoli cyffredinol ar gyfer rhywogaeth benodol sydd wedi lledaenu'n eang? .....	39

C9. Oes yna gamau gweithredu ychwanegol na ddylid caniatáu eu defnyddio fel mesurau rheoli cyffredinol ar gyfer rhywogaethau sydd wedi lledaenu'n eang?.....	39
C10. Beth yw eich barn ar y mesurau rheoli trwyddadwy sydd yn Atodiadau C a D? ....	40
C11. Oes yna gamau gweithredu ychwanegol y dylid eu defnyddio fel mesurau rheoli trwyddadwy ar gyfer rhywogaethau sydd wedi lledaenu'n eang penodol? .....	40
C12. Oes yna gamau gweithredu na ddylid caniatáu eu defnyddio fel mesur rheoli trwyddadwy ar gyfer rhywogaeth sydd wedi lledaenu'n eang benodol? .....	41
Atodiad F – Cyngor ar ymatebion .....	41
Cyfrinachedd a diogelu data .....	42

# Cyflwyniad

1. Mae rhywogaethau goresgynnol estron yn herio goresiad rhai o'n rhywogaethau mwyaf prin, ac yn difrodi rhai o'n hecosystemau mwyaf sensitif. Mae effeithiau rhywogaethau goresgynnol estron ar ein bioamrywiaeth ddomestig a byd-eang yn ddifrifol ac yn tyfu. Maent hefyd yn cael effaith ar draws ystod o ddiwydiannau a rhwydweithiau, o ffermio i'r diwydiant adeiladu a dyfrffyrdd cenedlaethol.
2. Mae Defra a Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i safiad cryf yn erbyn rhywogaethau goresgynnol estron. Nod Cynllun Amgylchedd 25 mlynedd Llywodraeth y DU yw gwella bioddiogelwch y wlad, gan gynnwys mynd i'r afael â rhywogaethau goresgynnol estron. Nod Cynllun Adfer Natur Cymru yw mynd i'r afael â'r rhesymau sydd wrth wraidd colli bioamrywiaeth, gan gynnwys drwy: wella cadernid ein hamgylchedd naturiol. Rydym yn cymryd camau yn erbyn bygythiad y rhywogaethau hyn mewn amrywiaeth o ffyrdd; drwy ymyrraeth uniongyrchol grwpiau gweithredu lleol, gwell addysg a chodi ymwybyddiaeth o'u heffeithiau, ac ymchwil a datblygu cyfryngau bioreoli i helpu i atal lledaeniad y rhywogaethau hyn.
3. Diben yr ymgynghoriad hwn yw cael eich barn ar y mesurau rheoli sy'n cael eu hystyried gan Defra a Llywodraeth Cymru o bryder i'r Undeb sydd wedi lledaenu'n eang yng Nghymru a Lloegr yn unol ag Erthygl 19 o Reoliad (UE) Rhif. 1143/2014 ar atal a rheoli cyflwyno a lledaeniad rhywogaethau goresgynnol estron ar gyfer rhywogaethau sydd. Bydd eich ymatebion yn ein helpu i ddatblygu ein syniadau yn y maes hwn fel y gallwn roi prosesau ar waith a fydd yn caniatáu i gamau effeithiol gael eu cymryd i reoli rhywogaethau sydd o bryder i'r Undeb sydd wedi lledaenu'n eang yng Nghymru a Lloegr.

## Rheoliad Rhywogaethau Goresgynnol Estron yr UE (1143/2014)

4. Daeth Rheoliad (UE) Rhif. 1143/2014 ar atal a rheoli cyflwyno a lledaeniad rhywogaethau goresgynnol estron ("y Prif Reoliad") i rym ar 1 Ionawr 2015. Mae'n gosod cyfyngiadau llym ar y rhestr o rywogaethau a elwir 'rhywogaeth o bryder i'r Undeb'. Mae'r rhain yn rhywogaethau a allai gael y fath effaith andwyol ledled yr Undeb Ewropeaidd fel bod angen gweithredu ar y cyd ar draws Ewrop. Mae'r cyfyngiadau'n golygu na ellir mewnfario i'r UE, cadw, magu, cludo, gosod ar y farchnad, defnyddio na chyfnewid, caniatáu i atgenhedlu, tyfu neu drin, na rhyddhau i'r amgylchedd rhywogaethau o bryder i'r Undeb (yn amodol ar rai eithriadau drwy ganiatadau neu drwyddedau). Mae 49 o rywogaethau ar restr yr Undeb ar hyn o bryd – 26 anifail a 23 planhigyn. Yn y ddogfen hon byddwn yn defnyddio "rhywogaeth o bryder i'r Undeb" i gyfeirio at bob un o'r 49 rhywogaeth gyda'i gilydd.

5. Mae asesiad risg trwyadl a gwyddonol wedi'i gynnal ar bob un o'r rhywogaethau o bryder i'r Undeb hyn. Gwnaed hyn i bennu'r effaith negyddol a gaiff y rhywogaethau hyn, ynghyd â'r tebygolrwydd y byddant yn ennill eu plwyf o fewn tiriogaeth yr UE. Mae rhywogaethau wedi'u rhestru ar lefel yr UE er mwyn diogelu'r holl Aelod-wladwriaethau rhag y risg sy'n gysylltiedig â'r rhywogaethau hyn, ac er mwyn cynnal dull unedig o'u hatal rhag lledaenu ac ennill eu plwyf ar draws tiriogaeth yr Undeb. Mae Defra a Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i frwydro yn erbyn bygythiad y rhywogaethau hyn yma, a hefyd i gynnal safonau bioddiogelwch cryf er mwyn atal y rhywogaethau hyn rhag lledaenu i Aelod-wladwriaethau eraill.
6. Gellir gweld yr [asesiadau risg](#)<sup>1</sup> ar gyfer rhywogaethau sydd wedi'u rhestru fel rhai o bryder i'r Undeb ar hyn o bryd.
7. Mae'r Prif Reoliad yn gydnaws â'r dull hierarchaidd y cytunwyd arno'n rhyngwladol i fynd i'r afael â rhywogaethau goresgynnol estron:
  - **atal**: yn cynnwys mesurau cadarn i geisio atal rhywogaethau o bryder i'r Undeb rhag dod i mewn i'r UE, naill ai'n fwriadol neu'n anfwriadol
  - **canfod yn gynnar a dileu'n gyflym**: gofynion i systemau goruchwylio ganfod presenoldeb rhywogaethau o bryder i'r Undeb cyn gynted â phosibl a chymryd mesurau dileu cyflym i'w hatal rhag sefydlu
  - **rheoli**: mae rhai rhywogaethau sydd o bryder i'r Undeb wedi hen sefydlu eisoes mewn rhai gwledydd ac mae angen camau rheoli ar y cyd fel nad ydynt yn lledaenu ymhellach ac i leihau'r niwed maent yn ei achosi
8. Rydym wedi cynnwys dolen i [Reoliad Rhywogaethau Goresgynnol Estron yr UE](#)<sup>2</sup> (1143/2014) er cyfleustra.

## Rhywogaethau o bryder i'r Undeb sydd wedi lledaenu'n eang yng Nghymru a Lloegr

9. Mae 14 rhywogaeth o bryder i'r Undeb wedi'u nodi fel rhai sydd wedi lledaenu'n eang yng Nghymru a Lloegr. Dyma'r rhywogaethau y mae'n rhaid defnyddio mesurau rheoli effeithiol ar eu cyfer. Byddwn yn cyfeirio at y 14 rhywogaeth hyn gyda'i gilydd fel "rhywogaethau sydd wedi lledaenu'n eang" neu "rhywogaethau" gydol y ddogfen hon. Dyma nhw:

---

<sup>1</sup> <https://circabc.europa.eu/w/browse/7cd5920d-25bb-43c7-84bb-49de217c1563>

<sup>2</sup> <https://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/?qid=1417443504720&uri=CELEX:32014R1143>

## Planhigion

10. Pidyn-y-gog Americanaidd (*Lysichiton americanus*), Riwbob Chile (*Gunnera tinctoria*), Ffugalaw crych (*Lagarosiphon major*), Dail-ceiniog arnofiol (*Hydrocotyle ranunculoides*), Efwr enfawr (*Heracleum mantegazzianum*), Jac y Neidiwr (*Impatiens glandulifera*), Ffugalaw Nuttall (*Elodea nuttallii*), Pluen Parot (*Myriophyllum aquaticum*)

## Anifeiliaid

11. Gwydd yr Aifft (*Alopochen aegyptiacus*), Cranc manegog Tsieina (*Eriocheir sinensis*), Y carw mwntjac (*Muntiacus reevesi*), Cimwch afon arwyddol (*Pacifastacus leniusculus*), Y wiwer lwyd (*Sciurus carolinensis*), a holl is-rywogaethau (*Trachemys scripta*) neu "lithrwy".

## Gorchymyn Rhywogaethau Goresgynol Estron (Gorfodi a Thrwyddedu) 2019

12. Mae Gorchymyn Rhywogaethau Goresgynol Estron (Gorfodi a Thrwyddedu) 2019<sup>3</sup> (y "Gorchymyn Gorfodi") bwriedir ar hyn o bryd yn dod i rym ar 1 Hydref 2019. Rydym yn bwriadu oedi yn dod i rym tan 1 Rhagfyr 2019 er mwyn mwy o amser i ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn. Mae'n Gweithredu Gofynion y Prif Reoliad, yn cynnwys pennu'r cosbau ar gyfer torri cyfyngiadau'r Prif Reoliad, amddiffyniadau a darpariaethau gorfodi eraill.

13. Nid yw'r tramgwyddau a geir yn erthygl 3 o'r Gorchymyn Gorfodi<sup>4</sup> yn gymwys i unrhyw beth a wneir o dan, ac yn unol â'r:

- caniatâd (Rhan 8 o'r Gorchymyn Gorfodi); neu
- trwydded (Rhan 9 o'r Gorchymyn Gorfodi)

14. Ni ymdrinnir â'r system drwyddedu fel rhan o'r ymgynghoriad hwn. Mae trwyddedau'n berthnasol i weithgareddau a wneir gan sefydliadau lle mae'r sbesimenau'n cael eu cadw mewn daliadau cyfyngedig. Yn bennaf, maent yn galluogi gwaith ymchwil a chadwraeth y tu allan i gynefinoedd naturiol organebau (er enghraifft, cadw mewn sw), er y gall gweithgareddau eraill gael eu caniatáu mewn amgylchiadau eithriadol.

15. Mae'r Gorchymyn Gorfodi yn cyflwyno darpariaethau trwyddedu. Ymysg dibenion eraill, gellir rhoi trwyddedau ar gyfer gweithredu mesur rheoli yn unol ag Erthygl 19 y Prif Reoliad ('mesurau rheoli'), cyn belled bod rhai amodau'n cael eu bodloni. Natural

---

<sup>3</sup> <http://www.legislation.gov.uk/ukxi/2019/527/contents/made>

<sup>4</sup> Mae'n drosedd i fewnforio i'r UE yn fwiadol, cadw, bridio, cludo (heblaw at ddibenion dileu), gosod ar y farchnad, defnyddio neu gyfnwid, caniatáu i atgynhyrchu, tyfu neu drin, neu ryddhau i'r amgylchedd, unrhyw sbesimen byw o rywogaeth sydd o bryder i'r Undeb.



England yw'r awdurdod trwyddedu ar gyfer y Gorchymyn Gorfodi yn<sup>5</sup> Lloegr a Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yw'r awdurdod trwyddedu yng Nghymru.

## Mesurau rheoli

### Nodau rheoli

16. Ar gyfer rhywogaethau sydd wedi lledaenu'n eang, mae'r Prif Reoliad yn ei gwneud yn ofynnol i gyflwyno mesurau rheoli effeithiol, er mwyn lleihau'r effaith ar fioamrywiaeth, y gwasanaethau ecosystem cysylltiedig, ac ar iechyd pobl neu'r economi lle bo'n berthnasol. Mae mesurau rheoli'n cynnwys camau gweithredu ffisegol, cemegol neu fiolegol marwol neu nad ydynt yn farwol sydd â'r nod o ddileu, rheoli poblogaeth a chyfyngu ar boblogaeth o rywogaeth sydd wedi lledaenu'n eang.

17. Mae'n rhaid i fesurau rheoli geisio cyflawni un neu fwy o'r dibenion canlynol hyn sydd wedi'u diffinio yn y Prif Reoliad:

- **dileu** – cael gwared ar boblogaeth o rywogaeth oresgynnol estron yn llwyr a pharhaol drwy ddull marwol neu ddull nad yw'n farwol
- **rheoli poblogaeth** – unrhyw gam gweithredu marwol neu nad yw'n farwol a ddefnyddir i reoli poblogaeth o rywogaeth oresgynnol estron, gan leihau effaith ar rywogaethau na thargedir a'u cynefinoedd hefyd, gyda'r nod o gadw nifer yr unigolion mor isel â phosibl, y gwasanaethau ecosystem cysylltiedig, iechyd pobl neu'r economi, yn cael eu lleihau er nad oes posibl dileu'r rhywogaeth yn llwyr
- **cyfyngu** – unrhyw gamau sy'n ceisio creu rhwystrau i leihau'r risg o boblogaeth o rywogaeth oresgynnol estron yn gwasgaru a lledaenu y tu hwn i'r ardal yr ymledwyd iddi

### Gofynion pellach mewn perthynas â mesurau rheoli

18. Mae'r Prif Reoliad yn datgan yn Erthygl 19 (1) y bydd mesurau rheoli yn gymesur â'r effaith ar yr amgylchedd ac yn briodol i amgylchiadau penodol yr Aelod-wladwriaethau, yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r costau a'r buddion a hefyd yn cynnwys, i'r graddau y mae'n ymarferol, y mesurau adfer y cyfeirir atynt yn Erthygl 20<sup>6</sup>. Byddant yn cael eu blaenoriaethu ar sail y gwerthusiad o risg a pha mor gosteffeithiol ydynt.

---

<sup>5</sup> Natural England hefyd yw awdurdod trwyddedu'r DU ar gyfer trwyddedau sy'n ymwneud â mewnforio ac allforio rhywogaethau o bryder i'r Undeb a thrwyddedau sy'n ymwneud â'r ardal forol ar y môr.

<sup>6</sup> Mae Erthygl 20 (1) yn datgan y bydd Aelod-wladwriaethau yn cyflawni mesurau adfer priodol i helpu i adfer ecosystem sydd wedi cael ei diraddio, ei difrodi, neu ei dinistrio gan rywogaethau goresgynnol estron sydd o bryder i'r Undeb oni bai bod dadansoddiad cost a budd yn dangos, ar sail y data sydd ar gael a chyda sicrwydd rhesymol, y bydd costau'r mesurau hynny yn uchel ac yn anghymesur i fanteision adfer.

19. Mae'r Prif Reoliad hefyd yn datgan yn Erthygl 19 (3) bod rhaid i Aelod-wladwriaethau, wrth gymhwyso mesurau rheoli a dewis dulliau i'w defnyddio, roi sylw dyledus i iechyd pobl a'r amgylchedd, yn enwedig rhywogaethau heb eu targedu a'u cynefinoedd, a rhaid iddynt sicrhau, pan dargedir anifeiliaid, na fydd unrhyw boen, trallod na dioddefaint diangen iddynt, heb amharu ar effeithiolrwydd y mesurau rheoli.

20. Defnyddiwyd y gofynion hyn i lywio datblygiad y mesurau rheoli a gynigir yn y ddogfen hon.

## Camau rheoli

21. Yng Nghymru a Lloegr, rydym eisoes yn cymryd amryw o gamau i reoli rhywogaethau sydd wedi'u lledaenu'n eang. Er enghraifft, rydym yn defnyddio ac yn datblygu cyfryngau bioreoli ar gyfer rhywogaethau penodol o blanhigion gyda'r nod o'u hatal rhag lledaenu. Rydym hefyd yn cefnogi grwpiau gweithredu lleol i gymryd camau uniongyrchol yn erbyn planhigion goresgynnol. Rydym yn bwriadu parhau i ddefnyddio'r rhain, a chamau tebyg, fel rhan o'r gwaith o reoli rhywogaethau sydd wedi lledaenu'n eang yn effeithiol.

22. Ni fydd y rhan fwyaf o'r camau rheoli presennol ac arfaethedig y manylir arnynt yn y ddogfen hon yn gofyn am drwydded mesurau rheoli er mwyn eu cyflawni, gan nad ydynt yn cynnwys gweithgareddau sydd wedi'u cyfyngu o dan y Prif Reoliad.

23. Mewn rhai achosion, gellir caniatáu gweithgareddau a fyddai fel arfer wedi'u cyfyngu o dan y Rheoliad (ac sydd fel arfer yn cael eu gwahardd o dan y Gorchymyn Gorfodi) er mwyn hwyluso mesurau rheoli effeithiol. Mae yna wyth gweithgaredd sydd wedi eu cyfyngu ac mae'r rhain wedi eu nodi yn Erthygl 7 o'r Prif Reoliad. Mae'r Erthygl hon yn datgan na ddylid gwneud y canlynol yn fwriadol<sup>7</sup> gyda sbesimenau byw o rywogaethau o bryder i'r Undeb:

- i. eu dwyn i mewn i diriogaeth yr Undeb, gan gynnwys eu cludo o dan oruchwyliaeth swyddogion tollau;
- ii. eu cadw, gan gynnwys mewn daliad cyfyngedig;

---

Mae Erthygl 20 (2) yn nodi y bydd y mesurau adfer y cyfeirir atynt ym mharagraff 1 yn cynnwys y canlynol o leiaf:

(a) mesurau i gynyddu gallu ecosystem sydd wedi cael ei aflonyddu oherwydd presenoldeb rhywogaethau goresgynnol estron o bryder i'r Undeb i wrthsefyll, ymdopi, addasu i ac adfer o effeithiau aflonyddwch;

(b) mesurau i gefnogi atal ailymosodiad yn dilyn ymgyrch ddileu.

<sup>7</sup> Mae hyn yn cynnwys unrhyw ran, gamet, hadyn, wy, neu egin o rywogaeth o bryder yr Undeb a allai dyfu, deor neu atgynhyrchu. Yn ogystal ag unrhyw hybridiau, amrywiaethau neu fridiau a allai orosi ac yna atgynhyrchu.

- iii. eu bridio, gan gynnwys mewn daliad cyfyngedig;
- iv. eu cludo i, o neu o fewn yr Undeb, ac eithrio cludo rhywogaethau i gyfleusterau yng nghyd-destun eu dileu;
- v. eu rhoi ar y farchnad;
- vi. eu defnyddio neu eu cyfnewid;
- vii. eaniatáu iddynt atgynhyrchu, tyfu neu drin, gan gynnwys mewn daliad cyfyngedig; neu
- viii. eu rhyddhau i'r amgylchedd

24. Mae'n bosibl y caiff trwydded mesur rheoli ei rhoi gan yr awdurdod trwyddedu (Cyfoeth Naturiol Cymru yng Nghymru neu Natural England yn Lloegr) i ganiatáu i un neu fwy o'r camau gweithredu hyn ddiwydd, cyn belled â bod y gweithgaredd a drwyddedwyd yn cael ei gyflawni er mwyn cyflawni un, neu gyfuniad, o'r nodau rheoli a nodir uchod.

25. Nodwch nad yw'r Prif Reoliad yn cyfyngu ar gludo sbesimenau i cyfleusterau<sup>8</sup> at ddibenion dileu.

## Mathau o fesur rheoli

26. At ddibenion yr ymgynghoriad hwn rydym wedi gwahanu ein mesurau rheoli arfaethedig yn ddau grŵp:

27. Y rhai lle na fyddai angen trwydded o dan y Gorchymyn Gorfodi<sup>9</sup> – cyfeiriwn at y rhain fel 'mesurau rheoli cyffredinol'.

28. Y rhai y gellir eu gwneud yn gyfreithlon o dan ac yn unol â thrwydded a roddwyd o dan y Gorchymyn Gorfodi – cyfeiriwn at y rhain fel 'mesurau rheoli trwyddadwy'.

## Mesurau rheoli cyffredinol

29. Mae'r rhain yn cynnwys camau gweithredu nad ydynt yn cael eu cyfyngu gan y Prif Reoliad, ac felly nid oes angen trwydded o dan y Gorchymyn Gorfodi i'w cyflawni yn gyfreithlon. Mae enghreifftiau posibl o fesurau rheoli cyffredinol yn cynnwys:

- hybu ac annog camau gweithredu gan grwpiau gweithredu lleol i gydweithio, mapio, blaenoriaethu, codi ymwybyddiaeth a mynd i'r afael â rhywogaethau sydd wedi lledaenu'n eang

<sup>8</sup> Ni ddiffinnir "Cyfleusterau" yn y Prif Reoliad, fodd bynnag, rydym yn deall y term i gyfeirio at sefydliadau neu weithrediadau lle y gellir gwaredu rhywogaethau o bryder yr Undeb yn ddi-boen fel rhan o gamau dileu.

<sup>9</sup> Yn dibynnu ar y gweithgaredd a'r rhywogaeth dan sylw, efallai y bydd angen trwydded o hyd o dan ddeddfwriaeth arall, fel Deddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981.

- darparu cyngor a chanllawiau ar reoli rhywogaethau. Er enghraifft, y cyngor a roddir gan ysgrifenyddiaeth rhywogaethau anfrodorol Prydain
- rheoli rhywogaethau sydd wedi lledaenu'n eang drwy ddulliau marwol fel rhan o ymdrechion dileu
- defnyddio camau gweithredu uniongyrchol i gael gwared ar rywogaethau sydd wedi lledaenu'n eang. Er enghraifft, gwaith wedi'i dargedu i gael gwared ar Jac y Neidiwr (*Impatiens glandulifera*) i helpu i atal lledaeniad pellach o fewn dalgylch
- defnyddio Cytundebau a Gorchmynion Rheoli Rhywogaethau<sup>10</sup>. Er enghraifft, pan fo angen mynediad i dir fel rhan o raglen ddileu sydd wedi'i chymeradwyo gan awdurdod amgylcheddol

## Mesurau rheoli trwyddadwy

30. Mae'r rhain yn cynnwys camau gweithredu y byddai'n anghyfreithlon eu cymryd oni bai eu bod wedi'u hawdurdodi gan drwydded a roddwyd o dan Erthygl 36(2)(b) a 36(2)(c) o'r Gorchymyn Gorfodi. Mae enghreifftiau posibl o fesurau rheoli trwyddadwy yn cynnwys:

- cadw, yna rhyddhau gwryw y rhywogaeth wedi'i sterileiddio, gyda'r nod o reoli poblogaeth. Er enghraifft, rhyddhau cimwch afon arwyddol byw wedi'i sterileiddio i gorff dŵr i leihau'r boblogaeth dros amser
- gwaredu sbesimenau o'r amgylchedd, eu cludo a'u cadw fel rhan o ymdrechion rheoli. Er enghraifft, cael gwared ar boblogaeth o *Trachemys scripta* (terapin clustgoch a elwir yn 'llithrwy' hefyd) o'r amgylchedd, a'u cadw mewn caethiwed fel rhan o weithgarwch rheoli poblogaeth
- cadw sbesimenau mewn lleoliad dros dro cyn eu lladd
- tyfu rhywogaethau sydd wedi lledaenu'n eang yn yr amgylchedd fel rhan o astudiaeth wyddonol sydd â'r nod o ddileu'r rhywogaeth honno

## Canllaw i Atodiadau

Atodiad A – Nodau mesurau rheoli

Atodiad B – Cynnig ar gyfer mesurau rheoli cyffredinol

<sup>10</sup> <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2015/7/part/4> .

Atodiad C – Cynigion ynghylch mesurau rheoli trwyddadwy

Atodiad D – Mesurau rheoli trwyddadwy arfaethedig sy'n ymwneud â'r Cimwch afon arwyddol (*Pacifastacus leniusculus*)

Atodiad E – Cwestiynau ymgynghori

Atodiad F – Cyngor ar ymatebion

## Atodiad A – Nodau mesurau rheoli

1. Mae'r nodau a gynigir yma yn canolbwyntio ar leihau'r effaith a gaiff y 14 rhywogaeth sydd wedi lledaenu'n eang ar fioamrywiaeth a gwasanaethau ecosystem brodorol yng Nghymru a Lloegr, yn ogystal â'u heffeithiau economaidd-gymdeithasol ehangach. Mae ein nodau'n nodi'r hyn y mae ein mesurau rheoli ar gyfer y rhywogaethau hyn yn gweithio tuag ato.

### Planhigion

2. Tabl 1. Mesurau rheoli ar gyfer rhywogaethau planhigion sydd wedi'u gwasgaru'n eang.

<b>Rhywogaeth: Ffugalaw nuttall (<i>Elodea nuttallii</i>), Riwbob Chile (<i>Gunnera tinctoria</i>), Ffwr enfawr (<i>Heracleum mantegazzianum</i>), Dail-ceiniog arnofiol (<i>Hydrocotyle ranunculoides</i>), Jac y neidiwr (<i>Impatiens glandulifera</i>), Ffugalaw crych (<i>Lagarosiphon major</i>), Pidyn-y-gog Americanaidd (<i>Lysichiton americanus</i>), Pluen parot (<i>Myriophyllum aquaticum</i>)</b>	
Nodau	Lleihau lledaeniad pellach y rhywogaethau hyn, gyda gwaith dileu lleol yn cael ei wneud mewn ardaloedd blaenoriaeth uchel lle bo'n bosibl, e.e. Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), lle mae fflora brodorol prin dan fygythiad ac ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd ac erydiad.

### Anifeiliaid

3. Tabl 2. Mesurau rheoli ar gyfer rhywogaethau anifeiliaid sydd wedi'u gwasgaru'n eang.

<b>Rhywogaeth: Gwydd yr Aiff (<i>Alopochen aegyptiacus</i>)</b>	
Nodau	Rheoli'r boblogaeth wyllt gyfredol o'r rhywogaeth hon a'i dileu yn y gwyllt lle bo'n bosibl.  Lleihau nifer yr unigolion sydd mewn caethiwed dros amser.

<b>Rhywogaeth: Cranc manegog Tsieina (<i>Eriocheir sinensis</i>)</b>	
Nodau	Lleihau lledaeniad pellach y rhywogaeth a lliniaru ei heffeithiau.  Dileu mewn ardaloedd lle bo hynny'n bosibl a lle mae'r manteision yn gynaliadwy.
<b>Rhywogaeth: Y carw mwntjac (<i>Muntiacus reevesi</i>)</b>	
Nodau	Rheoli'r boblogaeth wyllt gyfredol o'r rhywogaeth hon, i leihau ei lledaeniad pellach a'i dileu yn y gwyllt lle bo'n bosibl.  Lleihau nifer yr unigolion sydd mewn caethiwed dros amser.
<b>Rhywogaeth: Y cimwch afon arwyddol (<i>Pacifastacus leniusculus</i>)</b>	
Nodau	Lleihau lledaeniad pellach y rhywogaeth a lliniaru ei heffeithiau.  Dileu mewn ardaloedd lle bo hynny'n bosibl a lle mae'r manteision yn gynaliadwy.
<b>Rhywogaeth: Y wiwer lwyd (<i>Sciurus carolinensis</i>)</b>	
Nodau	Rheoli'r boblogaeth wyllt gyfredol o'r rhywogaeth hon, i leihau ei lledaeniad pellach a'i dileu yn y gwyllt lle bo'n bosibl.  Eu hatal rhag sefydlu ar ynysoedd lle nad ydynt yn gallu cytrefu'n naturiol.  Eu hatal rhag sefydlu mewn ardaloedd lle gwarchodir poblogaethau o'r wiwer goch.  Lleihau nifer yr unigolion sydd mewn caethiwed dros amser.
<b>Rhywogaeth: Pob isrywogaeth o <sup>11</sup><i>Trachemys scripta</i> (a elwir yn "llithrwyr" hefyd")</b>	
Nodau	Rheoli'r boblogaeth wyllt gyfredol o'r rhywogaeth hon, ei hatal rhag lledaenu ymhellach a'i dileu yn y gwyllt lle bo'n bosibl.

<sup>11</sup> Mae hyn yn cynnwys holl is-rywogaethau *Trachemys scripta* e.e. therapin bol melyn, therapin clustgoch, therapin Cumberland, therapin a'r therapin cyffredin

## Atodiad B – Cynigion ar gyfer mesurau rheoli cyffredinol

1. Fel y disgrifiwyd uchod (paragraff ddogfen ymgynghori Prif 29), mae'r rhain yn fesurau y gellir eu cyflawni **heb** fod angen trwydded o dan y Gorchymyn Rhywogaeth Goresgynnol Estron (Gorfodi a Thrwyddedu) 2019 ("y Gorchymyn Gorfodi"). Mae mesurau rheoli cyffredinol, o'u canolbwyntio ar nodau rheoli, yn rhan annatod o'r modd y mae rhywogaethau o bryder i'r Undeb sydd wedi lledaenu'n eang yn cael eu rheoli'n effeithiol, ac yn parhau felly, yng Nghymru a Lloegr.
2. Mae mesurau rheoli cyffredinol yn cynnwys gweithgareddau megis camau dileu uniongyrchol gan y llywodraeth, addysgu ac ymgysylltu â'r cyhoedd, ymchwil i rywogaethau sydd wedi lledaenu'n eang, profi cyfryngau bioreoli, a'r gwaith a wneir gan grwpiau gweithredu lleol i ddileu a rheoli rhywogaethau sydd wedi lledaenu'n eang.
3. Noder nad yw cludo i cyfleusterau<sup>12</sup> sbesimenau at ddibenion dileu wedi'i gyfyngu o dan y Prif Reoliad, ac felly gallai fod yn gam gweithredu rheoli cyffredinol.
4. Mae'n bwysig nodi hefyd fod yn rhaid i'r mesurau a ddisgrifir yn yr Atodiad hwn gael eu cyflawni yn unol â deddfwriaeth berthnasol arall fel y bo'n briodol.

## Mesurau rheoli cyffredinol ar gyfer pob rhywogaeth

5. Tabl 3. Mesur rheoli cyffredinol ar gyfer yr holl rywogaethau sydd wedi'u gwasgaru'n eang.

Camau gweithredu arfaethedig sy'n cyfrif fel mesurau rheoli cyffredinol (o dan Erthygl 19	<p>Rydym yn cynnig y gellir defnyddio'r gweithgareddau canlynol fel rhan o'r gwaith o reoli rhywogaethau sydd wedi lledaenu'n eang rhywogaeth o bryder i'r Undeb yng Nghymru a Lloegr:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• parhau i gefnogi ymchwil i ddulliau adnabod cynnar, rheoli a dileu ar gyfer y rhywogaethau hyn.</li></ul>
---	--

<sup>12</sup> Ni ddifinnir "Cyfleusterau" yn y Prif Reoliad, fodd bynnag, rydym yn deall y term i gyfeirio at sefydliadau neu weithrediadau lle y gellir gwaredu rhywogaethau o bryder yr Undeb yn ddi-boen fel rhan o gamau dileu.

o'r Prif Reoliad)  
sy'n berthnasol i'r  
holl rywogaethau

- deall sut mae unigolion newydd o'r rhywogaethau hyn yn cael eu cyflwyno.
- parhau i weithredu strategaethau perthnasol, fel cynlluniau gweithredu llwybrau<sup>13</sup>.
- parhau i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd ynghylch effeithiau negyddol y rhywogaethau hyn yn y gwyllt e.e. drwy hyrwyddo [taflenni adnabod rhywogaethau goresgynol estron](#).
- codi ymwybyddiaeth o ganlyniadau torri cyfyngiadau'r Prif Reoliad.
- cynnal camau gweithredu cydgysylltiedig yn erbyn rhywogaethau sydd wedi lledaenu'n eang drwy grwpiau gwlad.
- anogaeth lleihau nifer y rhywogaethau anifeiliaid sydd wedi lledaenu'n eang mewn caethiwed, a nifer y rhywogaethau planhigion sydd wedi lledaenu'n eang mewn casgliadau preifat, dros amser.
- hyrwyddo rheolaeth uniongyrchol gan wirfoddolwyr drwy grwpiau gweithredu lleol yn cynnwys partneriaethau o bartion â buddiant, fel awdurdodau lleol ac ymddiriedolaethau bywyd gwyllt. Gellid defnyddio'r cydweithio i fapio poblogaethau, blaenoriaethu ymdrechion dileu lleol, codi ymwybyddiaeth a mynd i'r afael â rhywogaethau sydd wedi lledaenu'n eang ar lefel leol.
- anogaeth adrodd am boblogaethau newydd o'r rhywogaethau hyn yn y gwyllt cyn iddynt allu sefydlu.
- parhau i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd a rhanddeiliaid o'r 14 rhywogaeth o bryder i'r Undeb sydd wedi lledaenu'n eang.
- darparu cyngor a chanllawiau, er enghraifft, ar dulliau rheoli.
- y defnydd o hysbysiadau gwarchod y gymuned a wnaed o dan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014 lle y bo'n briodol gan awdurdodau lleol a'r Heddlu i fynd i'r afael ag effaith rhywogaethau wedi lledaenu'n eang sydd o bryder i'r Undeb.

## Mesurau rheoli cyffredinol ychwanegol ar gyfer rhywogaethau planhigion

6. Tabl 4. Mesur rheoli cyffredinol ychwanegol ar gyfer rhywogaethau planhigion sydd wedi'u gwasgaru'n eang

<sup>13</sup> Mae'r cyntaf o'r Cynlluniau Llwybrau Gweithredu hyn, y Cynllun Llwybr Gweithredu Sŵ, ar gael yma ynghyd â dogfennau cysylltiedig: <http://www.nonnativespecies.org/index.cfm?sectionid=135>



**Rhywogaeth: Ffugalaw nuttall (*Elodea nuttallii*), Riwbob Chile (*Gunnera tinctoria*), Efwr enfawr (*Heracleum mantegazzianum*), Dail-ceiniog arnofiol (*Hydrocotyle ranunculoides*), Jac y neidiwr (*Impatiens glandulifera*), Ffugalaw crych (*Lagarosiphon major*), Pidyn-y-gog Americanaidd (*Lysichiton americanus*), Pluen parot (*Myriophyllum aquaticum*)**

Camau gweithredu arfaethedig sy'n cyfrif fel mesurau rheoli cyffredinol (o dan Erthygl 19 o'r Prif Reoliad)

Rydym yn cynnig y gellir defnyddio'r gweithgareddau canlynol fel rhan o'r gwaith o reoli rhywogaethau o bryder i'r Undeb sydd wedi lledaenu'n eang yng Nghymru a Lloegr:

- defnyddio dulliau dileu lle y bo'n briodol, yn enwedig mewn achosion lle mae'r rhywogaethau hyn wedi'u canfod mewn dalgylchoedd newydd
- defnyddio ymchwil bioreoli a pharhau i'w chyllido. Mae hyn yn cynnwys profion gan y Llywodraeth ar gyfryngau bioreoli fel y gwiddonyn *Listronotus elongates* fel cyfrwng rheoli ar gyfer dail-ceiniog arnofiol, a defnyddio'r llwydni *Puccinia komarovii* var. *glanduliferae* i reoli Jac y Neidiwr
- defnyddio camau gweithredu uniongyrchol i reoli'r planhigion hyn yn y gwyllt. Mae hyn yn cynnwys gwaith grwpiau gweithredu lleol, sefydliadau anllywodraethol ac awdurdodau lleol i ddileu neu reoli'r rhywogaethau hyn yn y gwyllt (yn cynnwys dulliau â llaw a chemegol)
- annog garddwriaethwyr preifat, manwerthwyr, tîrfeddianwyr a gerddi cyhoeddus i ddileu a gwaredu rhywogaethau planhigion rhestredig yn ddiogel er mwyn lleihau eu nifer dros amser
- parhau i addysgu garddwriaethwyr preifat, manwerthwyr, tîrfeddianwyr a gerddi cyhoeddus am yr angen i weithredu'n gyfrifol a pheidio â chaniatáu nac annog lledaeniad y rhywogaethau hyn i'r amgylchedd
- parhau i hyrwyddo ymgyrch '[Check, Clean and Dry](#)' a '[Mynd at Wraidd y Mater](#)' i hysbysu defnyddwyr dŵr, garddwyr a manwerthwyr am fygythiad rhywogaethau sydd wedi lledaenu'n eang
- darparu canllawiau ar fioldiogelwch llym wrth weithio'n agos at y rhywogaethau hyn i osgoi lledaeniad pellach, ac annog hynny
- darparu hyfforddiant i swyddogion tollau, rheoleiddwyr a'r Uned Troseddau Bywyd Gwyllt Cenedlaethol i sicrhau bod cyrff gorfodi'n gallu adnabod rhywogaethau sydd wedi lledaenu'n eang

## Mesurau rheoli cyffredinol ychwanegol ar gyfer rhywogaethau anifeiliaid

7. Tabl 5. Mesur rheoli cyffredinol ychwanegol ar gyfer rhywogaethau anifeiliaid sydd wedi'u lledaenu'n eang.

<b>Rhywogaeth: Gwydd yr Aifft (<i>Alopochen aegyptiacus</i>), Cranc manegog Tsieina (<i>Eriocheir sinensis</i>), Y carw mwntjac (<i>Muntiacus reevesi</i>), Cimwch afon arwyddol (<i>Pacifastacus leniusculus</i>) (gweler Atodiad D), Y wiwer Iwyd (<i>Sciurus carolinensis</i>), Pob isrywogaeth o (<i>Trachemys scripta</i>)</b>	
Camau gweithredu arfaethedig sy'n cyfrif fel mesurau rheoli cyffredinol (o dan Erthygl 19 o'r Prif Reoliad)	<p>Rydym yn cynnig y gellid defnyddio'r gweithgareddau canlynol fel rhan o'r gwaith o reoli rhywogaethau rhywogaeth anifeiliaid o bryder i'r Undeb sydd wedi lledaenu'n eang yng Nghymru a Lloegr:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• defnyddio mesurau rheoli marwol cymeradwy a gyflawnir heb greulondeb yn cynnwys lladd wedi'i dargedu, trapio a saethu</li><li>• annog casgliadau preifat a thirfeddianwyr i leihau neu ddileu unigolion dros amser</li><li>• annog casgliadau preifat a thirfeddianwyr i gymryd camau i atal rhywogaethau rhag dianc yn ddamweiniol, a chael cynlluniau ar gyfer eu dal drachefn</li><li>• gweithredu strategaethau perthnasol, er enghraifft: <a href="#">Cynllun Gweithredu Rheoli Ceirw Gwyllt yng Nghymru</a> a <a href="#">Chynllun Gweithredu Llwybrau Swau</a></li><li>• parhau i ymchwilio i ddulliau rheoli hyfyw, er enghraifft treialon ffrwythlondeb a ariennir gan Defra er mwyn rheoli poblogaeth</li><li>• annog rhanddeiliaid sy'n rhan o ymdrechion rheoli i sefydlu a chynnal partneriaethau rheoli cydgysylltiedig ar raddfa tirwedd</li><li>• parhau i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd a rhanddeiliaid ynghylch yr effaith y mae'r rhywogaethau hyn yn gallu ei chael ar fioamrywiaeth frodorol a'r economi os ydynt yn dianc neu'n cael eu rhyddhau i'r amgylchedd</li></ul>

## Atodiad C – Cynigion ar gyfer mesurau rheoli trwyddadwy

1. Fel y disgrifiwyd uchod (paragraff ddogfen ymgynghori Prif 30), camau yw'r rhain sy'n gofyn am drwydded o dan Orchymyn Rhywogaethau Goresgynnol Estron (Gorfodi a

Thrwyddedu) 2019 ("y Gorchymyn Gorfodi") cyn y gellir eu cyflawni. Mae'r rhestr o'r camau y cyfyngir arnynt gan y Prif Reoliad (ac a waherddir felly o dan y Gorchymyn Gorfodi) wedi'u nodi o dan y pennawd "camau rheoli" uchod.

2. Ar gyfer ein cynigion am y mesurau rheoli trwyddedadwy i Cimwch afon arwyddol weld Atodiad D. Mae wybodaeth hwn wedi'u rhoi mewn atodiad ar wahân er mwyn i ymgylgoreion allu ystyried ein cynigion ar gyfer mesur rheoli manylach ar gyfer cimwch afon arwyddol yn haws.
3. Mae'n rhaid gweithredu'r mesurau a ddisgrifir yn yr Atodiad hwn yn unol â deddfwriaeth berthnasol arall fel y bo'n briodol.

## Mesurau ar gyfer rheoli'r trwyddedadwy rhywogaethau planhigion

4. Tabl 6. Mesur rheoli trwyddedadwy ar gyfer rhywogaethau planhigion sydd wedi'u gwasgaru'n eang

<p>Camau gweithredu arfaethedig yn cynnwys mesurau rheoli (o dan Erthygl 19 o'r Prif Reoliad)</p>	<p>Rydym yn cynnig y gallai mesurau rheoli trwyddadwy ar gyfer rhywogaethau planhigion o bryder i'r Undeb sydd wedi lledaenu'n eang gynnwys y canlynol:</p> <p>Cynnal camau gweithredu sydd wedi'u cyfyngu fel rheol o dan y Prif Reoliad i weithredu mesurau dileu, rheoli poblogaeth a chyfyngu. Gallai hyn gynnwys cadw, cludo a gwneud defnydd masnachol dros dro o sbesimenau fel rhan o waith i ddileu, rheoli poblogaeth neu gyfyngu.</p> <p>Cynnal camau gweithredu sydd wedi'u cyfyngu fel rheol o dan y Prif Reoliad, i ymchwil, y tu allan i ddaliad cyfyngedig, i ddileu, rheoli poblogaeth neu gyfyngu rhywogaethau planhigion sydd wedi lledaenu'n eang. Gallai camau gweithredu trwyddadwy gynnwys cadw, tyfu a thrin y rhywogaeth hon fel rhan o ymchwil sydd wedi'i chynllunio i ddileu, rheoli poblogaeth neu gyfyngu.</p>
<p>Enghreifftiau</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• caniatáu trwydded i awdurdodi tyfu planhigion yn yr amgylchedd fel rhan o astudiaeth wedi'i monitro a'i rheoli gyda'r nod o benderfynu beth yw'r dulliau gorau o ddileu'r rhywogaeth honno</li> </ul>

## Mesurau ar gyfer rheoli'r trwyddedadwy rhywogaethau anifeiliaid

5. Tabl 7. Mesur rheoli trwyddedadwy ar gyfer rhywogaethau anifeiliaid sydd wedi'u lledaenu'n eang

<p><b>Rhywogaeth: Gwydd yr Aifft (<i>Alopochen aegyptiacus</i>), Cranc manegog Tsieina (<i>Eriocheir sinensis</i>), Y carw mwntjac (<i>Muntiacus reevesi</i>), Cimwch afon arwyddol (<i>Pacifastacus leniusculus</i>) (gweler Atodiad E), Y wiwer Iwyd (<i>Sciurus carolinensis</i>), Pob isrywogaeth o (<i>Trachemys scripta</i>)</b></p> <p>(Ar gyfer y cimwch afon arwyddol gweler Atodiad D)</p>	
<p>Camau gweithredu arfaethedig sy'n fesurau rheoli trwyddadwy (o dan Erthygl 19 y Prif Reoliad)</p>	<p>Rydym yn cynnig y gallai mesurau rheoli trwyddadwy ar gyfer rhywogaethau planhigion o bryder i'r Undeb sydd wedi lledaenu'n eang gynnwys y canlynol:</p> <p>Cynnal camau gweithredu sydd wedi'u cyfyngu fel rheol o dan y Prif Reoliad i weithredu mesurau dileu, rheoli poblogaeth a chyfyngu. Gallai hyn gynnwys cadw, cludo a gwneud defnydd masnachol dros dro o sbesimenau fel rhan o waith i ddileu, rheoli poblogaeth neu gyfyngu.</p> <p>Cynnal camau gweithredu sydd wedi'u cyfyngu fel rheol o dan y Prif Reoliad i ymchwilio, y tu allan i ddaliad cyfyngedig, i ddileu, rheoli poblogaeth neu gyfyngu rhywogaethau anifeiliaid sydd wedi lledaenu'n eang. Gallai camau gweithredu trwyddadwy gynnwys cadw a bridio sbesimenau anifeiliaid fel rhan o ymchwil sydd â'r nod o ddileu, rheoli poblogaeth neu gyfyngu.</p>
<p>Enghreifftiau</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• cludo anifeiliaid fel rhan o weithgaredd i reoli poblogaeth neu gyfyngu<sup>14</sup>.</li> <li>• cadw anifeiliaid a gymerwyd i gaethiwed i'w hatal rhag eu rhyddhau yn ôl i'r amgylchedd.</li> <li>• rhyddhau unigolion yn ôl i'r amgylchedd fel rhan o'r gwaith i reoli poblogaeth h.y. astudiaethau dal-rhyddhau i helpu i benderfynu maint poblogaeth er mwyn defnyddio mesurau rheoli addas i faint y</li> </ul>

<sup>14</sup><http://www.nonnativespecies.org/factsheet/factsheet.cfm?speciesId=2498>.

boblogaeth, neu ryddhau gwryw y rhywogaeth wedi'i sterileiddio yn ôl i'r amgylchedd fel rhan o waith i reoli poblogaeth.

- cadw anifeiliaid byw dros dro a gasglwyd fel rhan o ymdrechion i reoli poblogaeth, mewn cyfleuster trwyddedig cyn eu gwneud yn addas i'w bwyta, cyn belled bod mesurau rheoli priodol ar waith i osgoi lledaeniad pellach y rhywogaeth dan sylw.
- ar sail dros dro, gwerthu anifeiliaid byw a gasglwyd fel rhan o ymdrechion rheoli poblogaeth, er enghraifft, i'w bwyta gan bobl, i gyfleuster trwyddedig er mwyn eu gwneud yn addas i'w bwyta, cyn belled bod mesurau rheoli priodol ar waith i osgoi lledaeniad pellach y rhywogaeth dan sylw.
- dileu poblogaethau o'r gwyllt, a'u cadw wedyn o dan drwydded mewn cyfleuster fel rhan o ymdrechion dileu nad ydynt yn rhai marwol, lle gellir sicrhau bod poblogaeth fechan yn cael ei dileu'n llwyr o'r amgylchedd.

## Atodiad D – Mesurau rheoli trwyddadwy arfaethedig sy'n ymwneud â'r Cimwch afon arwyddol (*Pacifastacus leniusculus*)

### Cyflwyniad

1. Mae'r Atodiad hwn yn nodi:

- i. Y newidiadau mewn deddfwriaeth yn sgil Gorchymyn Rhywogaethau Goresgynol Estron (Gorfodi a Thrwyddedu) 2019 (y "Gorchymyn Gorfodi") fel y maent yn berthnasol i gimychiaid afon America yng Nghymru a Lloegr;
- ii. Ein cynigion ar gyfer mesurau rheoli cimychiaid afon America yng Nghymru a Lloegr fel sy'n ofynnol yn ôl Erthygl 19 o'r Prif Reoliad (rheoli rhywogaethau goresgynol estron sydd wedi lledu'n eang).

2. Gall cimychiaid afon America fyw mewn amrywiaeth o gynefinoedd dŵr croyw yn cynnwys nentydd, camlesi, afonydd, llynnoedd a phyllau, ac maent yn gallu goroesi mewn dŵr lled hallt. Maent yn gallu gwasgaru i fyny ac i lawr afon, croesi'r rhan fwyaf o

rwystrau naturiol ac artiffisial a theithio dros dir i gyrraedd cyrff dŵr cyfagos. Mae trosglwyddo neu ryddhau unigolion (trosedd ers 1992) wedi helpu gwasgaru ymhellach<sup>15</sup>.

3. Mae cimychiaid afon America'n cael effaith negyddol sylweddol mewn cyrff dŵr lle maent wedi'u cyflwyno<sup>16</sup>:
  - i. Mae cimychiaid afon America'n cael effaith ddifrifol ar yr amgylchedd; maent yn newid ecosystemau<sup>17</sup>, ac yn dileu ystod eang o rywogaethau yn cynnwys llawer o bwysigrwydd cadwraeth natur. Heb weithredu i atal eu lledaeniad, mae cimychiaid afon America'n cael effaith andwyol ar gyrff dŵr a rhywogaethau o bwysigrwydd cadwraeth wrth iddynt symud/gael eu symud i ardaloedd newydd;
  - ii. Maent yn ysglyfaethwyr ymosodol ac yn bwydo ar infertebratau dyfrol cynhenid, amffibiaid, yn cynnwys penbyliaid, wyau pysgod a physgod ifanc<sup>18</sup>, yn ogystal â malurion a llystyfiant dyfrol. Mae cimychiaid afon America yn cael effaith anuniongyrchol ar rywogaethau cynhenid hefyd drwy eu curo wrth gystadlu am adnoddau sy'n allweddol i'w goroesiad, fel bwyd a lloches<sup>19</sup>. Mewn safleoedd lle gwelir cimychiaid afon maent wedi newid gweoedd bwyd a lleihau amrywiaeth infertebratau dyfrol. Maent wedi lleihau poblogaethau cynhenid yr eog a'r brithyll, ac wedi cyfrannu at y gostyngiad mewn amffibiaid yn Lloegr.
  - iii. Maent yn effeithio'n ddifrifol ar boblogaethau o'r cimwch afon crafanc wen (*Austropotamobius pallipes*). Mae corgimychiaid afon America'n tyfu'n gynt, yn gallu cynhyrchu mwy o rai ifanc, yn fwy ymosodol ac yn gallu goddef ystod ehangach o amodau na chimwch afon crafanc wen, ac felly'n fwy cystadleuol na'r rhywogaethau cynhenid. Mae cimychiaid afon America yn cario clefyd ffwngaidd o'r enw 'pla cimwch yr afon'<sup>20</sup> hefyd. Mae'r ffwng hwn yn angheuol i gimychiaid afon cynhenid ac yn gallu aros yn fyw am hyd at bythefnos mewn amodau llaith. Gall cyflwyno neu ledaenu cimychiaid afon America heintiedig i gyrff dŵr sy'n cynnwys cimychiaid afon cynhenid arwain at ddifa'r boblogaeth frodorol yn llwyr. Y pla hwn, sy'n cael ei ledaenu'n waeth wrth i bobl symud cimychiaid afon America i

---

<sup>15</sup> <http://www.nonnativespecies.org/factsheet/factsheet.cfm?speciesId=2498>

<sup>16</sup> D.M. Holdich, J. James, C. Jackson a S. Peay (2014) The North American signal crayfish, with particular reference to its success as an invasive species in Great Britain, *Ethology Ecology & Evolution*, 26:2-3, 232-262

<sup>17</sup> L. Harvey, Gemma & Moorhouse, Tom & Clifford, Nicholas & J. Henshaw, Alexander & Johnson, Matthew & DW, MacDonald & Reid, Ian & Rice, Stephen. (2011). Evaluating the role of invasive aquatic species as drivers of sediment-related river management problems: the case of the Signal Crayfish (*Pacifastacus leniusculus*). *Progress in Physical Geography*. 35. 517.

<sup>18</sup> Guan, R., a Wiles, P. (1997). Ecological Impact of Introduced Crayfish on Benthic Fishes in a British Lowland River. *Conservation Biology*, 11(3), 641-647

<sup>19</sup> Stenroth, P. and Nyström, P. (2003), Exotic crayfish in a brown water stream: effects on juvenile trout, invertebrates and algae. *Freshwater Biology*, 48: 466-475

<sup>20</sup> Bohman, P., Nordwall, F., a Edsman, L. (2006). The effect of the large-scale introduction of signal crayfish on the spread of crayfish plague in Sweden. *Bulletin Français de la Pêche et de la Pisciculture*, (380-381), 1291-1302

gyrff dŵr newydd, sydd wedi bod yn ffactor sylweddol iawn yn niflaniad parhaus y cimwch afon crafanc wen yn Lloegr.

- iv. Mae cimychiaid afon America, wrth iddynt dyllu i mewn i lannau, yn cyfrannu at broblemau llifogydd, diogelwch da byw, a sefydlogrwydd strwythurau a adeiladwyd ar y glannau hefyd. Mae'n hollbwysig bod pob cam posibl yn cael ei gymryd i atal y perygl o lifogydd rhag gwaethygu ymhellach yng Nghymru a Lloegr.
- v. Mae cimychiaid afon America'n costio tua £2.7 miliwn y flwyddyn<sup>21</sup> i economi Prydain. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys costau gweithgareddau rheoli, effeithiau ar bysgota a physgodfeydd, adfer glannau afonydd, ac ymchwil i'r rhywogaeth. Mae'n debygol bod y ffigur hwn, o 2010, yn amcangyfrif rhy isel o gostau; mae costau cyfredol yn debygol o fod yn uwch.

O ystyried ehangder a difrifoldeb effeithiau andwyol cimychiaid afon America mae'n rhaid i ni sicrhau bod camau gweithredu a allai gyflymu eu lledaeniad i ardaloedd newydd yng Nghymru a Lloegr yn cael eu hatal lle bynnag y bo'n bosibl.

4. Bwriad y cyfyngiadau yn y Prif Reoliad yw helpu i warchod y rhywogaethau cynhenid, yr ecosystemau a'r dyfrffyrdd rhag y rhywogaeth hynod niweidiol yma. Mae'r Gorchymyn Gorfodi yn cryfhau ein gallu i reoli gweithgarwch bwriadus ac wedi ei reoli sy'n ymwneud â'r rhywogaeth hon yng Nghymru a Lloegr.
5. Credir bod cimychiaid afon America wedi lledu'n eang yn Lloegr, yn enwedig yn Ne Lloegr, ac maent yn niferus dros ben mewn rhai ardaloedd yng Nghymru. Nid yw'r rhywogaeth mor gyffredin yn yr Alban ac mae nifer fach o boblogaethau sefydlog wedi'u cofnodi. Nid oes arwydd ohonynt yng Ngogledd Iwerddon. Felly, dylai'r camau rheoli yng Nghymru a Lloegr sicrhau nad yw'r rhywogaeth yn lledu ar draws gwledydd y DU yn ogystal ag i Aelod-wladwriaethau.

## Sut y rheolir cimychiaid afon America yng Nghymru a Lloegr ar hyn o bryd

### Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981

6. Mae'n drosedd o dan adran 14 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 i ryddhau neu i ganiatáu i gimychiaid estron ddianc i'r gwyllt ac eithrio o dan ac yn unol â thelerau trwydded a ganiateir gan awdurdod priodol. Yr awdurdod priodol yng Nghymru yw Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ac yn Lloegr Natural England (NE).

---

<sup>21</sup> CABI (2010) *The Economic Cost of Invasive Non-Native Species on Great Britain*.

7. Os oes unrhyw un yn dymuno rhyddhau cimychiaid afon America i'r gwyllt, rhaid iddynt yn gyntaf wneud cais a derbyn trwydded o dan y Ddeddf er mwyn gallu gwneud hynny'n gyfreithlon.
8. O ystyried y niwed sylweddol a achosir i'r amgylchedd gan y rhywogaeth hon, yn gyffredinol mae trwyddedau'r Ddeddf yn gwrthod rhyddhau cimychiaid afon America i unrhyw ddyfroedd agored. Fodd bynnag, mae trwyddedau wedi eu caniatáu yn y gorffennol i alluogi i anifeiliaid a ddaliwyd gael eu rhyddhau os yw hynny'n hanfodol at ddibenion ymchwil.

### **Gorchymyn Gwahardd Cadw Pysgod Byw (cimychiaid yr afon) 1996**

9. Mae'n drosedd o dan adran 2(1) o'r Gorchymyn Gwahardd Cadw Pysgod Byw (cimychiaid yr afon) 1996 i gadw unrhyw gimychiaid afon estron yng Nghymru a Lloegr ac eithrio dan drwydded. Mae eithriad i gimychiaid afon America, y gellir eu cadw mewn ardaloedd gwyddonol heb drwydded.
10. Rhaid i'r sawl sydd am gadw cimychiaid afon America yn gyntaf wirio a yw eu safle wedi'i leoli yn un o'r ardaloedd â chaniatâd. Mae'r ardaloedd â chaniatâd hyn, sy'n aml yn cael eu galw'n 'go areas', yn cael eu diffinio yn ôl Cod Post yn unol ag Atodlen y Gorchymyn. Dim ond gyda thrwydded y gall unrhyw un gadw cimychiaid afon America mewn ardal heb ganiatâd, neu 'no-go area'. Fel rheol caniateir trwyddedau o'r fath at ddibenion ymchwil neu rai addysgol, a rhaid cadw anifeiliaid dan do mewn adeiladau cwbl fio-ddiogel.
11. Amcan y ddeddfwriaeth hon oedd rheoli'r rhywogaethau estron o gimychiaid afon mewn ardaloedd lle'r oedd niferoedd da o gimychiaid afon cynhenid (crafanc wen) yn bresennol.

### **Cadw cimychiaid afon estron i'w bwyta gan bobl**

12. Mae pobl sy'n cadw cimychiaid afon America i'w cyflenwi ar gyfer eu bwyta, megis marchnadoedd pysgod, gwestai a bwytai ac ati yn ddarostyngedig i drwydded gyffredinol a ganiateir trwy Orchymyn Mewnforio Pysgod Byw (Cymru a Lloegr) 1980. Mae'r drwydded hon yn caniatáu i berchnogion, meddianwyr a rheolwyr marchnadoedd pysgod, gwestai a bwytai ac eraill sy'n rhan o'r gwaith o gyflenwi cimychiaid afon estron i'w bwyta gan bobl, i gadw cimychiaid afon America byw (yn amodol ar amodau penodol, yn cynnwys bod yn rhaid i'r cimychiaid gael eu cadw mewn tanciau diogel bob amser). Mae'r drwydded yn berthnasol ar draws Cymru a Lloegr gyfan ac nid yw'n gyfyngedig i ardaloedd heb ganiatâd/â chaniatâd.



## **Amaethu/mewnforio cimychiaid afon America**

13. Yr Arolygiaeth Iechyd Pysgod (Cefas)<sup>22</sup> sy'n awdurdodi amaethwyr cimychiaid afon America. Rhaid i'r amaethu gael ei wneud yn unol â gofynion y Gorchymyn Cimychiaid Afon a'r Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad ac mae'n ofynnol i ffermydd weithredu mewn modd sy'n atal cimychiaid estron rhag dianc neu gael eu rhyddhau i'r gwyllt. Mewn ardaloedd heb ganiatâd yng Nghymru a Lloegr, dim ond mewn cyfleuster fferm dan do diogel y gall ffermio ddigwydd.

## **Trapio cimychiaid afon America**

14. Dim ond gyda thrwydded a roddir o dan adran 27A o Ddeddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 y gellir trapio cimychiaid afon America neu eu dal trwy unrhyw ddull arall. Mae trwyddedau o'r fath yn cael eu rhoi gan CNC yng Nghymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr. Ar hyn o bryd mae CNC ac AA yn defnyddio Atodlen y Gorchymyn Cimychiaid Afon i lywio eu penderfyniad wrth ystyried ceisiadau am drwyddedau trapio.
15. Fel rheol dim ond mewn ardaloedd a ganiateir y trwyddedir trapio at ddefnydd masnachol neu ar gyfer eu bwyta'n bersonol fel y'i diffinnir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn Cimychiaid Afon. Mewn ardaloedd heb ganiatâd, fel y'u diffinnir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn Cimychiaid Afon, caniateir trapio at ddibenion gwyddoniaeth, cadwraeth neu reoli pysgodfeydd yn unig. Rhaid i'r sawl sy'n dymuno trapio cimychiaid afon America hefyd ofyn am ganiatâd y tîfeddiannwr ac unrhyw glybiau genweirio perthnasol.
16. Os caniateir trwydded drapio, mae nifer o amodau cysylltiedig er mwyn gwarchod pysgodfeydd a'r amgylchedd yn ehangach rhag effeithiau gweithgarwch amhriodol, rhag i rywogaethau estron ledaenu ac i glefydau gael eu trosglwyddo.

## **Newidiadau i'r drefn reoli gyfredol ar gyfer cimychiaid afon America a ddaw i rym o dan Orchymyn Gorfodi**

17. O'r dyddiad y daw'r Gorchymyn Gorfodi i rym, bydd yn anghyfreithlon cyflawni'n fwrriadol unrhyw un o'r wyth gweithgaredd a nodir yn Erthygl 7 o'r Prif Reoliad<sup>23</sup> gyda cimychiaid afon America byw oni bai bod amddiffyniad yn berthnasol, neu fod y gweithgarwch wedi'i gyflawni dan drwydded neu trwy ganiatâd o dan y Gorchymyn Gorfodi.

---

<sup>22</sup> Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu

<sup>23</sup> Mae'n drosedd i fewnforio yn fwrriadol i'r UE, i gadw, i fagu, i gludo (ac eithrio at ddibenion dileu), i roi ar y farchnad, i ddefnyddio neu i gyfnewid, i ganiatáu i epilio, i dyfu neu i feithrin, neu i ryddhau i'r amgylchedd unrhyw anifail byw o rywogaeth sy'n destun pryder i'r Undeb.

18. Mae'r Gorchymyn Gorfodi yn diwygio nifer o ddarnau o ddeddfwriaeth gyfredol ac felly o'r dyddiad y daw i rym bydd y rheolau yng Nghymru a Lloegr ar gyfer cimychiaid afon America yn newid fel a ganlyn:
- i. Ni fydd y Gorchymyn Cimychiaid afon bellach yn berthnasol i'r 5 rhywogaeth cimwch afon a nodir yn y rhestr sy'n destun pryder i'r Undeb, yn cynnwys cimychiaid afon America. Yn lle hynny, rheolir y rhywogaethau hyn o dan y Gorchymyn Gorfodi, a bydd trwydded neu ganiatâd yn ofynnol o dan y Gorchymyn hwnnw er mwyn cadw'r cyfryw rywogaeth o gimychiaid afon, ble bynnag y maent wedi'u lleoli yng Nghymru a Lloegr (oni bai bod amddiffyniad yn berthnasol). Mae nifer o ganlyniadau pellach yn berthnasol i'r diwygiad hwn:
    - a. Bydd yr Atodlen i'r Gorchymyn Cimychiaid Afon, sy'n nodi'r rhannau o Gymru a Lloegr lle nad yw'n ofynnol cael trwydded i gadw cimychiaid afon America (yr ardaloedd â chaniatâd), yn cael ei dileu.
    - b. Ni fydd y drwydded gyffredinol sy'n awdurdodi cyflenwyr bwyd i gadw cimychiaid afon estron bellach yn bodoli.
  - ii. Ni fydd Atodlen 9 i Ddeddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad bellach yn cynnwys unrhyw rywogaeth o bryder i'r Undeb, felly ni fydd yn rhestru cimychiaid afon America. Yn lle hynny, bydd yn drosedd rhyddhau cimychiaid afon America i'r gwylt o dan y Gorchymyn Gorfodi oni bai y rhoddwyd caniatâd neu drwydded o dan y cyfryw Orchymyn.
19. Bydd angen cael caniatâd o hyd gan CNC neu AA o dan Ddeddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 er mwyn trapio cimychiaid afon America. Am y tro, bydd CNC ac AA yn parhau i ddefnyddio'r drefn cod post a sefydlwyd yn wreiddiol gan y Gorchymyn Cimychiaid Afon i bennu a ddylid caniatáu trwydded drapio. Fodd bynnag, hwyrach y bydd angen adolygu'r ardaloedd lle yr awdurdodir trapio, ac ar ba sail yn y dyfodol.

## Cynigion ar gyfer Mesurau Rheoli

### Hyd a lled y mesurau hyn

20. Dim ond i **sbesimenau byw** o gimychiaid afon America (*Pacifastacus leniusculus*) y mae'r cyfyngiadau hyn yn berthnasol. Felly hefyd, dim ond i weithgareddau yn ymwneud â **sbesimenau byw** o'r rhywogaeth hon y mae'r mesurau rheoli arfaethedig yn berthnasol.
21. Nid yw ein cynigion yn berthnasol i'r pedair rhywogaeth arall a nodir yn rhestr pryder yn Undeb (Cimwch afon rhesog (*Orconectes limosus*), Cimwch afon y gogledd (*Orconectes virilise*), Cimwch coch y gors (*Procambarus clarkia*) a'r Cimwch afon brith (*Procambarus fallax* f. *virginalis*). Ni chredir bod y pedair rhywogaeth hyn wedi lledu'n helaeth yng Nghymru a Lloegr. Felly, nid ydynt yn berthnasol i ofynion Erthygl 19 o'r

Prif Reoliad ac nid oes angen rhoi mesurau rheoli ar waith.

22. Dim ond i gimychiaid afon America byw yng Nghymru a Lloegr y maent yn berthnasol, ac nid ydynt yn berthnasol i weithgareddau sy'n digwydd yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon.

## Mesurau Rheoli

23. Rydym yn cydnabod bod llawer o weithgarwch trapio cimychiaid afon America ar hyn o bryd yn Lloegr. Hefyd rydym yn cydnabod nad yw'r drefn gyfredol (fel y nodir uchod) wedi sicrhau ynysu boddhaol neu leihad yn y boblogaeth o gimychiaid afon America. Mae diwydiant eang yn ymwneud â'r defnydd o gimychiaid afon America byw, wedi sefydlu yn bennaf yn Ne Lloegr. Ein nod yw caniatáu i rai gweithgareddau penodol yn unig i barhau, ar sail a reolir, lle gallwn fod yn hyderus y bydd y gweithgareddau hynny yn cyfrannu at ddileu, at reoli poblogaeth neu at ynysu cimychiaid afon America, gan sicrhau bod mesurau bioddiogelwch digonol ar waith. Felly'r gobaith yw y bydd y dull hwn yn sicrhau bod camau diogelwch digonol ar waith i warchod rhywogaethau cynhenid, i warchod ecosystemau ac i ddiogelu dyfrffyrdd rhag y bygythiad a ddaw yn sgil cimychiaid afon America.

24. Yn Atodiad C (gweler paragraff 5) rydym yn nodi ein cynigion ar gyfer mesurau rheoli y gellir eu trwyddedu ar gyfer yr holl rywogaethau anifeiliaid sydd wedi lledu'n helaeth, yn cynnwys cimychiaid afon America. Nodwn y cynigion hyn eto yn y tabl isod.

Tabl 8. Mesur rheoli trwyddedadwy ar gyfer rhywogaethau anifeiliaid sydd wedi'u lledaenu'n eang.

<p>Cam gweithredu arfaethedig ar gyfer mesurau rheoli trwyddedadwy (o dan Erthygl 19 o'r Prif Reoliad)</p>	<p>Rydym yn cynnig y mesurau rheoli trwyddedadwy canlynol ar gyfer rhywogaethau anifeiliaid sydd wedi lledu'n helaeth sy'n destun pryder i'r Undeb:</p> <p>Cymryd camau gweithredu a gyfyngir fel rheol dan y Prif Reoliad i roi dulliau ar waith i ddileu, i reoli poblogaethau ac i ynysu. Gallai hyn gynnwys cadw, cludo defnydd masnachol dros dro o sbesimenau anifeiliaid fel rhan o waith a dargedir at ddileu, rheoli poblogaethau neu ynysu.</p> <p>Cymryd camau gweithredu a gyfyngir fel rheol dan y Prif Reoliad i ganiatáu ymchwil, y tu allan i ddaliad ynysu, i ddileu, i reoli poblogaethau, neu i ynysu rhywogaeth o anifeiliaid sydd wedi lledu'n helaeth. Gallai camau trwyddedadwy gynnwys cadw a magu sbesimenau o</p>
--	---

anifeiliaid fel rhan o ymchwil ar gyfer dileu, rheoli poblogaethau neu ynysu,

25. Fodd bynnag ar gyfer cimychiaid afon America, credwn ei bod yn angenrheidiol gwneud cynigion pellach a manylach ar gyfer rheolaeth effeithiol yng Nghymru a Lloegr.

## Trefn reoli newydd arfaethedig

26. Bydd yn parhau'n ofynnol i'r sawl sydd am drapio cimychiaid afon America wneud cais am drwyddedau trapio oddi wrth CNC yng Nghymru a'r AA yn Lloegr. Bydd CNC ac AA yn parhau i ddefnyddio'r ardaloedd a nodwyd yn yr Atodlen i'r Gorchymyn Cimychiaid Afon (yr ardaloedd â chaniatâd) i lywio eu penderfyniadau wrth ystyried ceisiadau am drwyddedau trapio<sup>24</sup>.

27. Caniateir gweithgareddau yn ymwneud â chimychiaid afon i ffwrdd o leoliad dal y cimychiaid yn unig ac yn unol â thelerau trwydded mesurau rheoli a ganiateir o dan y Gorchymyn Gorfodi. Yr awdurdodau trwyddedu ar gyfer y Gorchymyn Gorfodi yw CNC yng Nghymru a'r AA yn Lloegr.

28. Bellach bydd ardaloedd lle caniatwyd cadw cimychiaid afon America yn y gorffennol o dan y Gorchymyn Cimychiaid afon (ardaloedd â chaniatâd) yn cael eu galw yn **'ardaloedd ynysu'**. Yn awr bydd yr holl ardaloedd eraill (ardaloedd heb ganiatâd) yn cael eu galw'n **'ardaloedd dan waharddiad'**.

29. Cynigwn mai nod rheoli cimychiaid afon America mewn ardaloedd ynysu fydd rheoli ac ynysu'r boblogaeth lle bo'n bosibl (h.y. dylid lleihau'r boblogaeth neu ni ddylid o leiaf ganiatáu iddi gynyddu neu ledaenu). Hefyd, dylid parhau i ymdrechu i ddileu poblogaethau o gimychiaid afon America yn y parthau hyn e.e. mewn pyllau neu gyrff caeedig eraill o ddŵr lle gallai camau o'r fath sicrhau canlyniadau parhaol a chynaliadwy. Y nod wrth reoli cimychiaid afon America mewn **'ardaloedd dan waharddiad'** yw atal lledaeniad cimychiaid afon America i mewn i'r ardaloedd hyn er mwyn gwarchod poblogaethau o gimychiaid afon cynhenid, bioamrywiaeth, sefydlogrwydd glannau'r afon, ac asedau economaidd-gymdeithasol lleol. Felly cynigwn y dylid caniatáu gweithgareddau rheoli gwahanol yn yr **'ardaloedd ynysu'** a'r **'ardaloedd dan waharddiad'**.

30. Cynigwn y dylid cynnal adolygiad o'r ardaloedd maes o law fel modd o sicrhau rheolaeth effeithiol ar gimychiaid afon America yng Nghymru a Lloegr. Credwn ei bod yn hanfodol pennu hyd a lled y poblogaethau cyfredol, fel y gellir rheoli'r rhywogaeth

---

<sup>24</sup> Tan y cynhelir adolygiad pellach o'r ardaloedd hyn – ac fel rhan o hynny y newidir yr ardaloedd hyn fel ymateb i unrhyw argymhellion ar sail tystiolaeth bellach ar y camau gorau i warchod ecosystemau cynhenid, cynnal bioamrywiaeth a'n dyfrffyrdd, ac atal lledaeniad y rhywogaeth hon yn yr amgylchedd.

hon yn well a lleihau eu heffaith. Gallai hyn olygu y bydd yr ardaloedd sydd ar hyn o bryd yn ardaloedd ynysu neu dan waharddiad yn newid yn sgil y cyfryw adolygiad..

## Cynigion ar gyfer trwyddedau trapio a mesurau rheoli y gellir eu trwyddedu

31. Gweler crynodeb o'r cynigion a nodir isod mewn diagramau llif ar ddiwedd yr atodiad hwn.

## Cynigion yn ymwneud ag ardaloedd ynysu

### Trwyddedau trapio

32. Cynigwn y byddai CNC ac AA yn parhau yn gyfrifol am ystyried, fesul achos, a ddylid rhoi trwyddedau trapio o fewn 'ardaloedd ynysu'. Byddai trwyddedau'n cael eu darparu fel y maent ar hyn o bryd, yn ôl lleoliad, gyda'r corff trwyddedu yn dod i benderfyniad ar ôl ystyried pob safle yn unigol, a hynny yn ddiwarant.

33. Byddai angen i'r sawl sy'n gweithredu o dan drwydded drapio wneud y canlynol er mwyn osgoi trosedd o dan y Gorchymyn Gorfodi:

- i. Cymryd yr holl gimychiaid afon America a ddaliwyd, beth bynnag eu maint (ni ddylid dychwelyd yr un ac eithrio o dan ac yn unol â thrwydded mesurau rheoli);
- ii. Peidio â chymryd cimychiaid afon America byw i ffwrdd o'r safle lle cawsant eu dal (ac eithrio o dan ac yn unol â thrwydded mesurau rheoli)<sup>25</sup>.

Byddent yn cael eu cynghori i sicrhau bod rheolaethau bioddiogelwch priodol ar waith hefyd.

### Trwyddedau mesurau rheoli

34. Cynigwn y dylai'r sawl sydd am gymryd anifeiliaid byw i ffwrdd o'r safle lle cawsant eu dal wneud cais am drwydded mesurau rheoli o dan y Gorchymyn Gorfodi hefyd. Gellid rhoi trwydded mesurau rheoli i ganiatáu cadw bwriadol, cludiant<sup>26</sup>, a defnydd masnachol.

35. Cynigiwn y gallai trwydded o'r fath ganiatáu bod cimychiaid afon America yn gallu cael eu cadw a'u cludo i'w **bwyta'n bersonol** yn ogystal â **gweithgareddau masnachol** fel eu gwerthu. I gael rhagor o wybodaeth am ein cynigion ar gyfer defnyddio sbesimenau byw gweler paragraffau 50-73.

---

<sup>25</sup> Oni bai y cludir y sbesimenau i leoliad at ddiben eu dileu, sy'n gam na fyddai'n ofynnol cael trwydded gan nad yw'n gyfyngiad o dan y Prif Reoliad.

<sup>26</sup> Gallai hyn gynnwys cludo i safle i'w bwyta gan bobl.

36. Byddai pob cais am drwydded yn cael ei asesu gan CNC neu AA, fesul achos unigol, gan ystyried y gwaith rheoli arfaethedig, amcan y gwaith rheoli, tebygolrwydd o ganlyniadau parhaol a chynaliadwy, a'r lleoliad y bydd y trapio a'r gweithgarwch dilynol i ffwrdd o safle dal cimychiaid yn digwydd. Byddai'n rhaid i'r sawl sydd am gael trwydded mesurau rheoli allu dangos i'r awdurdod trwyddedu y bydd eu camau gweithredu yn cyfrannu at ddileu, rheoli poblogaeth neu ynysu cimychiaid afon America. Byddai'n ofynnol iddyn nhw ddangos y bydd eu camau yn cael yr effaith ddymunol ar y boblogaeth darged – gan ddal lefel digon uchel a/neu am gyfnod digon hir o amser i gael yr effaith a nodwyd ar y boblogaeth darged o gimychiaid afon America. Gallai hyn olygu y bydd yn ofynnol bod lleiafswm penodol o gimychiaid yn cael eu dal yn yr ardal, a/neu fod trapio yn parhau yn yr un ardal am gyfnod estynedig o amser, o bosibl am dymor cyfan. Hefyd gallai olygu y byddai'n rhaid i ymgeisydd ddangos bod ganddo'r adnoddau angenrheidiol er mwyn dal y nifer arfaethedig ac am y cyfnod o amser arfaethedig. Cynigiwn y gall gweithgarwch gwyddonol ac ymchwil i gimychiaid afon America gyfrannu'n uniongyrchol at ein gallu i reoli'r rhywogaeth hon, a bod yn fesur rheoli o bosibl. Mewn sefyllfaoedd lle y gwneir cais am drwydded i gyflawni gweithgarwch gyda sbesimenau byw at ddibenion gwyddonol neu ymchwil, byddai angen i'r ymgeisydd ddangos y bydd eu camau gweithredu'n cyfrannu at ddileu, rheoli poblogaeth neu ynysu cimychiaid afon America, ond ni fyddai'n rhaid dangos bod ei gamau gweithredu'n cael effaith ataliol neu ddileol uniongyrchol ar boblogaeth darged.

## Cynigion ar gyfer Ardaloedd dan Waharddiad

### Trwyddedau trapio

37. Cynigwn y byddai CNC ac AA, fel y maent ar hyn o bryd, yn parhau yn gyfrifol am ystyried a ddylid rhoi trwyddedau trapio o fewn 'ardaloedd dan waharddiad' lle gellir profi bod angen penodedig ar gyfer trapio yn yr ardal honno.

38. Byddai angen i'r sawl sy'n gwneud cais am drwydded drapio:

- i. fod wedi trafod eu cynigion gyda'r cyrff rheoleiddio perthnasol;
- ii. dangos bod eu camau gweithredu yn angenrheidiol at ddibenion gwyddoniaeth, cadwraeth neu reoli pysgodfeydd. Oni bai bod y trapio at ddibenion gwyddoniaeth, bydd angen dangos yn sgil dwysedd y trapio y bydd eu camau gweithredu yn cael effaith ataliol a/neu ddileu'r boblogaeth a dargedir;

39. Fel yn yr ardal ynysu, byddai'n rhaid i bersonau sy'n gweithredu o dan drwydded trapio wneud y canlynol er mwyn osgoi trosedd o dan y Gorchymyn Gorfodi:

- i. cymryd yr holl gimychiaid afon America a ddaliwyd o'r lleoliad, beth bynnag eu maint (ni ddylid dychwelyd yr un);

- ii. peidio â chymryd sbesimenau byw o gimychiaid afon America i ffwrdd o'r safle lle cawsant eu dal ac eithrio o dan ac yn unol â thrwydded mesurau rheoli<sup>27</sup> i.

Byddent yn cael eu cynghori i sicrhau bod rheolaethau bioddiogelwch priodol ar waith hefyd.

## Trwyddedau mesurau rheoli

40. Cynigwn y dylai'r sawl sydd am gymryd sbesimenau byw i ffwrdd o'r ddalfa hefyd wneud cais am drwydded mesurau rheoli o dan y Gorchymyn Gorfodi. Fel yn yr ardaloedd ynysu, gallai'r drwydded ganiatáu cadw bwriadol, cludo a defnydd masnachol o sbesimenau byw.
41. Fodd bynnag, cynigiwn **na** fyddai modd cael trwydded mesurau rheoli i gludo a chadw cimychiaid afon **i'w bwyta'n bersonol** o fewn ardaloedd dan waharddiad. Credwn y bydd atal cludo a chadw cimychiaid afon America byw i'w bwyta'n bersonol yn helpu i sicrhau bod ardaloedd dan waharddiad wedi'u diogelu o risgiau cimychiaid afon America. Gallai rhyddhau unrhyw gimychiaid afon America, yn cynnwys rhyddhau'n ddamweiniol, arwain at ddifrod na ellir ei wyrddroi mewn ardaloedd dan waharddiad, naill ai drwy ledaenu pla cimychiaid neu sefydlu poblogaeth. Deallwn y bydd llawer o'r rhai sy'n defnyddio sbesimenau byw yn gweithredu'r holl fesurau diogelwch posibl i'w hatal rhag dianc. Fodd bynnag, credwn nad yw hi'n bosibl cyfiawnhau'r risg sy'n gysylltiedig â chadw a chludo cimychiaid afon America byw i'w bwyta'n bersonol mewn ardaloedd sy'n rhydd o'r rhywogaeth hon ar hyn o bryd. Bydd yn dal i fod yn bosibl mynd â chimychiaid afon marw, a laddwyd lle cawsant eu dal, adref.
42. Mewn ardaloedd dan waharddiad, cynigiwn y gellid ond cael trwydded mesurau rheoli sy'n caniatáu cludo, cadw a/neu ddefnydd masnachol sbesimenau byw pan fydd y sbesimenau byw yn cael eu cludo i ardal dan waharddiad ac y bydd unrhyw weithgarwch lle cedwir neu defnyddir y cimychiaid afon yn fasnachol yn digwydd o fewn yr ardal ynysu yn unig. Cynigiwn hefyd y byddai modd cael trwydded mesurau rheoli i gynnal gweithgareddau gwyddonol gyda chimychiaid afon America byw mewn ardaloedd dan waharddiad, yn cynnwys eu cadw a'u cludo (i ac o leoliadau o fewn ardaloedd dan waharddiad).
43. I gael rhagor o wybodaeth am ein cynigion i ddefnyddio sbesimenau byw gweler paragraffau 50-73.
44. Byddai pob trwydded yn cael ei hasesu gan CNC neu AA yn unigol, ar sail achos unigol gan ystyried y gwaith rheoli arfaethedig, amcan y gwaith rheoli, tebygolrwydd canlyniadau parhaol a chynaliadwy a lleoliad y ddalfa a'r gweithgarwch dilynol i ffwrdd o'r man lle bwriedir i'r trapio ddigwydd. Byddai'n rhaid i'r sawl sydd am gael trwydded

---

<sup>27</sup> Oni bai bod y sbesimenau'n cael eu cludo i gyfleuster at ddibenion dileu, sy'n gam gweithredu na fyddai'n gofyn am drwydded gan nad yw wedi'i gyfyngu o dan y Prif Reoliad.

mesurau rheoli allu dangos i'r awdurdod trwyddedu y bydd eu camau gweithredu'n cyfrannu at ddileu, rheoli poblogaeth neu ynysu cimychiaid afon America. Byddai'n ofynnol iddyn nhw ddangos y bydd eu camau yn cael yr effaith ddymunol ar y boblogaeth darged – gan ddal lefel digon uchel a/neu am gyfnod digon hir o amser i gael yr effaith a nodwyd ar y boblogaeth darged o gimychiaid afon America. Gallai hyn olygu y bydd yn ofynnol bod lleiafswm penodol o gimychiaid yn cael eu dal yn yr ardal, a/neu fod trapio yn parhau yn yr un ardal am gyfnod estynedig o amser, o bosibl am dymor trapio cyfan. Hefyd gallai olygu y byddai'n rhaid i ymgeisydd ddangos bod ganddo'r adnoddau angenrheidiol er mwyn dal y nifer arfaethedig ac am y cyfnod o amser arfaethedig. Cynigiwn y gall gweithgarwch gwyddonol ac ymchwil i gimychiaid afon America gyfrannu'n uniongyrchol at ein gallu i reoli'r rhywogaeth hon, a bod yn fesur rheoli o bosibl. Mewn sefyllfaoedd lle y gwneir cais am drwydded i gyflawni gweithgarwch gyda sbesimenau byw at ddibenion gwyddonol neu ymchwil, byddai angen i'r ymgeisydd ddangos y bydd eu camau gweithredu'n cyfrannu at ddileu, rheoli poblogaeth neu ynysu cimychiaid afon America, ond ni fyddai'n rhaid dangos bod ei gamau gweithredu'n cael effaith ataliol neu ddileol ar boblogaeth darged.

## Cynigion pellach ar gyfer ardaloedd ynysu a dan waharddiad

45. Cynigwn y dylai'r sawl sy'n methu â bodloni'r gofynion mesurau rheoli ar ei ben ei hun ystyried sefydlu grŵp rheoli gydag unigolion eraill. Gallai ymdrech ar y cyd, fel rhan o gynllun trefnus, arwain at drapio ar y fath lefel a allai gael effaith arwyddocaol ar y boblogaeth darged, a gellid gwneud cais am drwydded mesurau rheoli ar y cyd. Mewn ardal ynysu, gallai trwyddedau o'r fath gynnwys cludo sbesimenau byw i fwrdd o'r ddalfa i'w bwyta'n bersonol. Hefyd byddai modd i hyn drwyddedu defnydd masnachol o gimychiaid afon America yn unol â'r cynigion isod (gweler paragraffau 50-73). Cynigwn y byddai ymgysylltiad cymunedol ar lefel fel hyn yn gyfrwng gwerthfawr mewn ardaloedd ynysu gan y byddai'n canolbwyntio ymdrechion trapio lleol tuag at nodau rheoli ehangach.
46. I'r sawl sydd am gael trwydded mesurau rheoli, byddem yn eu cynghori i gysylltu â'r rheoleiddwyr perthnasol (CNC, AA, ac NE), yn ogystal ag Ymddiriedolaethau afonydd Lleol cyn gynted â phosibl. Bydd hyn yn helpu i sicrhau y gellir cynllunio unrhyw waith rheoli mewn modd a fydd yn atal neu'n lleihau unrhyw effaith ar yr amgylchedd lleol. Hefyd, byddai'n helpu ymgeiswyr i bennu a yw eu cais, naill ai am ganiatâd neu am drwydded mesurau rheoli yn debygol o gael ei derbyn neu a fyddai angen ystyried y cais ymhellach.

## Cynigion ynghylch amodau'r drwydded

47. Cynigwn y byddai trwyddedau mesurau rheoli'n cynnwys yr amodau canlynol:



Rhaid i'r sawl a drwyddedir:

- i. Gyflawni gweithgarwch trwyddedig yn yr ardal a nodir ar y drwydded yn unig;
- ii. Peidio â chludo cimychiaid afon byw i mewn i ardaloedd dan waharddiad (gellir caniatáu cludo o ardaloedd dan waharddiad);
- iii. Bod â chopi o'r drwydded yn ei feddiant wrth gludo cimychiaid afon America byw;
- iv. Cadw'r holl sbesimenau sy'n cael eu dal (e.e. peidio â thafllu rhai bach i ffwrdd);
- v. Cludo a gwaredu'r holl gimychiaid afon sydd wedi'u dal mewn modd bio-ddiogel;
- vi. Cadw cofnodion o nifer y cimychiaid afon sydd wedi'u dal;
- vii. Cofnodi unrhyw drosiannau masnachol dilynol, yn cynnwys i bwy y gwerthwyd yr anifeiliaid, a sawl un a werthwyd.

48. Os bydd rhywun yn torri amodau'r drwydded, ni ellir dibynnu ar y drwydded a gall arwain at gyflawni trosedd o dan y Gorchymyn Gorfodi. Hefyd gall effeithio ar eu gallu i gael trwydded mesurau rheoli yn y dyfodol.

## Cynigion ar gyfer defnyddio sbesimenau byw

### Bwyta personol

49. Fel y nodir uchod (gweler paragraffau 35-38), cynigwn y gellid caniatáu i bobl sy'n gwneud gweithgareddau rheoli mewn **ardal ynysu** gadw a chludo cimychiaid afon America i'w defnyddio'n fuan i'w bwyta'n bersonol o dan drwydded mesurau rheoli. Dim ond o fewn ardaloedd ynysu y gellir cludo neu gadw anifeiliaid byw.

50. Ni fydd caniatâd i bobl sy'n gwneud gweithgareddau rheoli gadw neu gludo cimychiaid afon America byw i'w defnyddio fel bwyd personol mewn **ardal dan waharddiad**. Ein nod yw lleihau symudiad cimychiaid afon America byw mewn ardaloedd dan waharddiad yn sylweddol oherwydd credir y bu hyn yn ffactor arwyddocaol a gyfrannodd at eu lledaeniad a'u sefydlu mewn ardaloedd newydd.

### Defnydd masnachol o gimychiaid afon America

51. Rydym yn cydnabod lle bydd niferoedd sylweddol o gimychiaid afon yn cael eu dal, nad yw eu defnyddio fel bwyd personol yn opsiwn dilys. Er y bydd modd i'r cimychiaid afon dan sylw gael eu lladd heb greulondeb, cynigwn y bydd achosion lle dylid caniatáu defnyddio'r stoc yn fasnachol.

52. Mewn **ardaloedd ynysu** cynigwn y gallai'r awdurdodau trwyddedu mewn achosion priodol roi trwyddedau mesurau rheoli sy'n caniatáu gweithgarwch masnachol, sef gwerthiant a chadw at y diben hwnnw, cludiant a'u defnyddio. Byddai gweithgarwch masnachol o'r math yma yn amodol ar gyfres lem o amodau.

53. Mewn **ardaloedd dan waharddiad**, cynigiwn y gallai awdurdodau trwyddedu, mewn achosion priodol, roi trwyddedau mesurau rheoli sy'n caniatáu cludo sbesimenau byw i ardaloedd ynysu o dan gamau ynysu bio-ddiogel at ddefnydd masnachol pellach. Ni chaniateir defnydd masnachol o fewn ardaloedd dan waharddiad.
54. Yn ôl Erthygl 19(2) o'r Prif Reoliad, "commercial use of already established invasive alien species may be temporarily allowed as part of the management measures aimed at their eradication, population control or containment, under strict justification and provided that all appropriate controls are in place to avoid any further spread."
55. O dan ein cynigion ni, byddai'n rhaid i'r sawl sy'n gwneud cais am drwydded mesurau rheoli brofi i'r awdurdod trwyddedu y gallai ei weithgarwch arfaethedig gyfannu at ddileu, rheoli poblogaeth neu ynysu cimychiaid afon America.
56. O dan y Prif Reoliad, dim ond dros dro y caniateir defnydd masnachol. Credwn mai dim ond tan y bydd gweithgarwch mesurau rheoli wedi llwyddo y dylid caniatáu defnydd masnachol yn y lleoliad dan sylw.
57. Byddai trwyddedau mesurau rheoli sy'n caniatáu defnydd masnachol am gyfnod penodol yn cael eu rhoi. Byddai modd i hyn fod ar gyfer un tymor trapio gydag adolygiad i ddilyn, neu gallai gyfateb i hyd arfaethedig gweithrediad y mesurau rheoli.

## **Masnachwyr**

58. Cynigwn mai dim ond i fasnachwyr y dylid trwyddedu'r sawl sydd am werthu cimychiaid afon byw, megis cyflenwyr gwerthwyr pysgod, bwytai a gwestai lle mai'r defnydd olaf o sbesimenau byw yw eu bwyta gan bobl.
59. Cynigiwn y bydd masnachwyr wedi:
- i. Eu lleoli mewn ardal ynysu;
  - ii. Derbyn trwydded mesurau rheoli sy'n caniatáu gweithgarwch masnachol, yn cynnwys cadw a chludo perthnasol ar stoc byw;
  - iii. Cael caniatâd yn unig i gyflawni gweithgareddau trwyddedig o fewn ardal ynysu;
  - iv. Cael eu gwahardd rhag cludo cimychiaid afon byw i mewn i unrhyw ardal dan waharddiad;
  - v. Cael caniatâd yn unig i werthu cimychiaid afon America byw i bobl sydd wedi'u lleoli o fewn ardal ynysu ac sy'n meddu ar drwydded mesurau rheoli sy'n caniatáu defnydd masnachol;
  - vi. Cael eu gwahardd rhag cynnig cimychiaid afon byw i'w gwerthu i unrhyw leoliad arall ac eithrio ardal ynysu;
  - vii. Cael cyfarwyddyd i gario copi o'u trwydded pan fyddant yn cludo cimychiaid afon America byw;
  - viii. Cael cyfarwyddyd i fod â chopi o'u trwydded yn barod i'w archwilio;

- ix. Cael cyfarwyddyd i gludo, cadw a gwaredu (fel sy'n berthnasol) yr holl gimychiaid afon mewn dull bio-ddiogel;
- x. Cael cyfarwyddyd i gofnodi unrhyw drosiannau masnachol, yn cynnwys gan bwy y prynwyd/gwerthwyd stoc byw, maint y stoc a brynwyd/gwerthwyd, a chadarnhad bod y gwerthwr/pwrcaswr yn meddu ar drwydded mesurau rheoli sy'n caniatáu defnydd masnachol.

60. Byddai hyn yn golygu y gellid olrhain unrhyw weithgarwch masnachol yn ôl i weithgarwch mesurau rheoli; naill ai'n uniongyrchol h.y. cimychiaid afon America sy'n cael eu cymryd fel rhan o fesurau rheoli yn cael eu gwerthu i fasnachwr neu'n anuniongyrchol h.y. masnachwr yn gwerthu'r cimychiaid afon hyn ymlaen i fwyty i bobl eu bwyta. Byddai'r holl gamau yn y gadwyn fasnachol felly'n seiliedig ar weithgarwch rheoli cyntaf a oedd yn ceisio dileu, rheoli poblogaeth neu ynysu poblogaeth cimychiaid afon America.

61. Credwn y byddai'r drefn arfaethedig a gynigir yn caniatáu olrhain sbesimenau byw yn ôl i'r daliwr gwreiddiol a'r gwaith mesurau rheoli trwyddedig. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod yr holl gimychiaid afon America sydd ar werth yng Nghymru a Lloegr yn cael eu dal fel rhan o fesurau rheoli effeithiol. Credwn fod sicrhau atebolrwydd ar y lefel hon yn ffrwyno gweithgarwch anghyfreithlon, ac yn atal y sawl sy'n awyddus i elwa ar boblogaethau cimychiaid afon America heb fynd ati hefyd i ddarparu manteision amgylcheddol yn sgil eu gweithredoedd.

## **Masnachu ac ardaloedd dan waharddiad**

62. Nid yw'n fwriad gennym i newid polisi cyfredol CNC / AA ar drwyddedau trapio ar gyfer cimychiaid afon America mewn ardaloedd dan waharddiad ("ardaloedd heb ganiatâd") - gweler paragraffau 27-31. Byddai'r polisi i beidio ag awdurdodi trapio at ddefnydd masnachol neu i bobl eu bwyta mewn ardaloedd dan waharddiad yn parhau.

63. Ar hyn o bryd, er nad yw trapio masnachol yn cael ei ganiatáu gan CNC / AA mewn ardaloedd heb ganiatâd (ardaloedd dan waharddiad), mae trwydded gyffredinol o dan Ddeddf Mewnforio Pysgod Byw (Cymru a Lloegr) 1980 yn awdurdodi perchnogion, deiliaid a rheolwyr marchnadoedd pysgod, gwestai a bwytai ac eraill sy'n ymwneud â chyflenwadau estron i gadw cimychiaid afon byw. Felly, mae modd i fasnachwyr brynu a gwerthu cimychiaid afon byw yn yr ardaloedd heb ganiatâd (ardaloedd dan waharddiad).

64. Credwn y dylai'r arfer hwn ddod i ben. Tra bod Erthygl 19 o'r Prif Reoliad yn caniatáu defnydd masnachol dros dro fel rhan o fesurau rheoli ar gyfer rhywogaethau sydd wedi lledu'n helaeth (gweler paragraffau 50-73), mae hyn "*provided that all appropriate controls are in place to avoid any further spread*". Felly mae'n ofynnol i ni yn ôl y Prif Reoliad sicrhau bod ein cynigion sy'n caniatáu defnydd masnachol yn cynnwys y

camau rheoli angenrheidiol i sicrhau nad ydym yn achosi lledaeniad pellach o gimychiaid afon America i mewn i ardaloedd lle nad oes sôn amdanynt ar hyn o bryd.

65. Credir bod y symud parhaus ar gimychiaid afon America ar gyfer masnach yn un o'r prif ffactorau sy'n cyfrannu at eu lledaeniad parhaus. Ystyriwn y byddai caniatáu'r defnydd parhaus o gimychiaid afon America yn yr ardaloedd dan waharddiad yn groes i fwriad Prif Reoliad Erthygl 19 yn arbennig, a hefyd yn groes i nodau Cynllun Amgylcheddol 25 Mlynedd Llywodraeth y DU a Chynllun Adfer Natur Cymru (a nodir ym mharagraff 2 o'r ddogfen ymgynghori). Fel y nodir yn y cyflwyniad i'r atodiad hwn, mae cimychiaid afon America'n risg barhaus a sylweddol i'n hecosystemau, dyfrffyrdd ac asedau glan afonydd. Mae hyn yn arbennig o wir yn yr ardaloedd dan waharddiad. Mae rhyddhau cimychiaid afon America yn yr ardaloedd dan waharddiad, naill ai'n fwriadol neu'n ddamweiniol, yn achosi risg difrifol o ddifrod sylweddol na ellir ei wydroi. Yn sgil y risg honno, rydym yn ystyried na ellir cyfiawnhau parhau i gadw a gwerthu'r rhywogaeth hon mewn ardaloedd dan waharddiad.
66. Byddai cadw, cludo a gwerthu cimychiaid afon America byw i mewn i ac o fewn ardaloedd dan waharddiad yn cynyddu'r perygl cysylltiedig o sbesimenau yn dianc neu'n cael eu rhyddhau. Byddai hyn yn cynyddu'r perygl o gimychiaid afon America yn sefydlu eu hunain yn yr ardaloedd hyn gan achosi nifer o effeithiau negyddol:
- i. Byddai'r rhywogaethau o gimychiaid afon cynhenid mewn perygl o ddifodiant oherwydd y gystadleuaeth am adnoddau, ac yn sgil lledaeniad pla'r cimychiaid afon. Mae'r clefyd hwnnw'n farwol i'r cimwch afon cragen wen cynhenid (*Austropotamobius pallipes*). Mae gwaredu cimychiaid afon America sydd wedi marw hyd yn oed yn berygl i boblogaethau cynhenid gan fod y pla yn cael ei gludo gan ddŵr a gall oroesi am hyd at bythefnos dan amodau llaith;
  - ii. Bydd cadernid glannau'r afon mewn perygl o ddymchwel yn sgil gweithgarwch tyllu'r rhywogaeth. Mae hyn yn creu perygl llifogydd yn sgil erydu ac ansefydlogi'r glannau ac yn cynyddu'r gwaddodion yn llif y dŵr. Hefyd gall y gweithgarwch hwn ddisodli rhywogaethau sydd mewn perygl megis llygoden y dŵr (*Arvicola amphibious*);
  - iii. Byddai pysgodfeydd mewn ardaloedd dan waharddiad yn wynebu perygl yn sgil cimychiaid afon America yn ysglyfaethu ar eu hwyau. Gall yr ysbail hon gael effaith economaidd sylweddol ar pysgodfeydd.
67. Cynigwn na ddylid rhoi trwyddedau i fasnachwyr, megis cyflenwyr gwerthwyr pysgod, bwytaï a gwestai, sydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd dan waharddiad i ganiatáu defnydd masnachol o gimychiaid afon America byw o dan y Gorchymyn Gorfodi. Nid ydym yn awyddus i annog marchnad ar gyfer cimychiaid afon America o fewn ardaloedd dan waharddiad, gan yr ystyriwn y byddai hyn yn peri mwy o berygl o unigolion yn dod â chyflenwadau heb eu rheoleiddio o gimychiaid afon America i mewn

i'r ardaloedd hyn. Cafwyd achosion o boblogaethau cimychiaid afon America yn sefydlu mewn ardaloedd na fyddent wedi gallu symud iddynt yn naturiol, h.y. lledaeniad wedi digwydd yn sgil gweithgarwch dynol; naill ai eu rhyddhau'n fwriadol neu wedi dianc yn ddamweiniol. Rydym am sicrhau bod y risg o boblogaethau newydd yn sefydlu mewn ardaloedd dan waharddiad yn cael ei leihau'n sylweddol. O'i roi'n syml, credwn po leiaf o gimychiaid afon America byw fydd yn cael eu cludo a'u cadw mewn ardaloedd dan waharddiad, y lleiaf o gyfleoedd fydd i ryddhau neu ddianc.

68. Byddai'r agwedd hon ynghyd â'r cynigion a nodir uchod yn cyfyngu ar ddefnydd masnachol a chadw a chludo cysylltiedig (ac eithrio o ardal dan waharddiad i ardal ynysu, neu i gyfleusterau gwaredu <sup>28</sup>) i ardaloedd ynysu yn unig. Byddai hyn yn lleihau'r perygl o ryddhau cimychiaid afon America yn ddamweiniol neu'n fwriadol, a fu'n ffactor cyfrannol sylweddol i'w lledaeniad a'u llwyddiant yn sefydlu eu hunain mewn dyfroedd a oedd gynt yn gwbl rydd o gimychiaid afon America. Cafwyd achosion o boblogaethau cimychiaid afon America yn ymddangos mewn ardaloedd y byddai'n annhebygol iawn y gallent fod wedi symud iddynt heb gymorth pobl, fel isafonydd anghysbell i ddyfroedd sy'n cynnwys poblogaethau cimychiaid afon cynhenid. Mae'r poblogaethau hyn o gimychiaid afon America'n debygol o arwain at ddileu'r poblogaethau o gimychiaid afon cynhenid ymhellach i lawr yr afon. Mewn rhai achosion, credir eu bod wedi'u cyflwyno fel poblogaethau had, i ddechrau poblogaethau newydd i'w trapio, heb unrhyw ystyriaeth i'r risgiau cysylltiedig. Mae poblogaethau o gimychiaid afon America wedi sefydlu mewn amgylchiadau lle credir y byddai lledaeniad naturiol yn anhebygol iawn yn yr Alban hefyd. Gwelwyd y rhywogaeth yn yr Alban gyntaf ym 1995, ac o fewn 10 mlynedd roedd wedi lledaenu i 9 dalgyrch afon, cyfanswm o 58km o afon <sup>29</sup>. Credir bod tarddiad a lledaeniad dilynol yr achosion hyn yn deillio o sefydlu poblogaethau'n anghyfreithlon <sup>30</sup>.

69. Wrth ddatblygu'r cynigion ar gyfer cimychiaid afon America ystyriwyd dau opsiwn ar gyfer defnydd masnachol. Nid dyma'r dull mwyaf effeithiol am wahanol resymau. Fodd bynnag, rydym yn eich gwahodd i drafod yr opsiynau hyn ymhellach yn eich ymateb. Y rhain oedd:

**i) Caniatáu defnydd masnachol o gimychiaid afon America byw mewn ardaloedd ynysu ac ardaloedd dan waharddiad o dan drwydded mesurau rheoli.**

---

<sup>28</sup> Nid yw'r Prif Reoliad yn cyfyngu ar gludo sbesimenau byw i gyfleusterau yng nghyd-destun dileu

<sup>29</sup> Gladman Z., Adams C., Bean C., Sinclair C. a Yeomans W. 2009. Signal crayfish in Scotland, tud. 43–48. In: Brickland J. et al., Eds. Crayfish conservation in the British Isles. Proceedings of a conference held on 25th March 2009 in Leeds, UK. *Leeds; British Waterways*

<sup>30</sup> D.M. Holdich, J. James, C. Jackson a S. Peay (2014) The North American signal crayfish, with particular reference to its success as an invasive species in Great Britain, *Ethology Ecology & Evolution*, 26:2-3, 232-262.

Rydym yn ystyried bod y defnydd masnachol o sbesimenau byw o gimychiaid afon mewn ardaloedd dan waharddiad yn ormod o risg o ystyried beth fyddai canlyniadau rhyddhau damweiniol/bwriadol neu waredu rhywogaethau marw'n amhriodol mewn ardaloedd lle nad yw cimychiaid afon America wedi lledaenu'n eang eisoes. Mae un achos o ryddhau unigolyn i gorff dŵr yn peryglu lledaeniad pla cimwch afon i boblogaethau rhywogaethau cynhenid a byddai hyn yn arwain at effeithiau ar fioamrywiaeth, dyfrffyrdd a glannau afonydd, a chludo cimychiaid afon America byw mewn ardaloedd dan waharddiad. Rydym yn teimlo bod ein dull arfaethedig yn canolbwyntio'n briodol ar gymryd dull ataliol o reoli'r rhywogaethau. Mae hyn yn arbennig o wir i Gymru, sydd â dim ond dwy ardal ynysu a ble y gallai mwy o gludo a chadw cimychiaid afon America byw wneud llawer o ddalgylchoedd di-haint yn agored i risg.

**ii) Peidio â chaniatáu unrhyw weithgarwch masnachol gyda chimychiaid afon America byw mewn unrhyw ran o Gymru a Lloegr (mewn ardaloedd dan waharddiad nac ardaloedd ynysu).**


Dyma'r dewis sydd â'r lleiaf o risg. Fodd bynnag, credwn y byddai'r dull hwn yn cyfyngu'n sylweddol ar nifer y bobl sy'n barod i gymryd camau i reoli cimychiaid afon America ac felly'n llesteirio ein hymdrechion i leihau lledaeniad pellach y rhywogaeth a lliniaru ei heffeithiau ymhellach.

Byddai'r dull hwn yn effeithio ar fusnesau sy'n defnyddio cimychiaid afon America'n fasnachol yng Nghymru a Lloegr hefyd. Honnir mai ychydig o farchnad os o gwbl sydd i gimychiaid afon America marw. Oni bai bod hyn yn newid, byddai gwahardd unrhyw ddefnydd masnachol o anifeiliaid byw yn effeithio'n andwyol ar amrywiaeth o fusnesau (trapwyr, cyfanwerthwyr a bwytai). Teimlir bod defnydd rheoleiddiedig o gimychiaid afon America o fewn ardaloedd ynysu yn unig (fel ein cynigion) yn gydbwysedd cymesur rhwng yr angen i ddiogelu ymhellach, yr angen am fwy o ymdrechion i drapio a dileu cimychiaid afon America o'n cyrsiau dŵr, a'r angen am ddefnydd ymarferol o unrhyw gimychiaid afon America sydd wedi'u trapio fel rhan o fesurau rheoli. Rydym am ddarparu'r amddiffyniad mwyaf lle bo'r angen mwyaf heb effeithio'n anghymesur ar fuddiannau busnes neu beidio ag annog gweithgareddau rheoli'n anfwriadol pan fo cimychiaid afon America'n bresennol.

70. Byddem yn falch iawn o glywed eich barn ar ein cynigion ar gyfer defnydd masnachol o gimychiaid afon America, fel y nodir ym mharagraffau 50 i 68 i uchod, yn cynnwys ein cynigion i weithredu mwy o gyfyngiadau mewn ardaloedd dan waharddiad a'r cyfiawnhad dros y dull hwn.


# Diagram o gynigion ar gyfer trwyddedau trapio

71. Delwedd 1. Diagram llif yn crynhoi cynigion ar gyfer awdurdodiadau dal.



# Diagram o gynigion ar gyfer trwyddedau mesurau rheoli

72. Delwedd 2. Diagram llif yn crynhoi cynigion ar gyfer trwyddedau mesur rheoli.





## Atodiad E – Cwestiynau'r ymgynghoriad

1. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am sylwadau ar fesurau rheoli effeithiol ar gyfer rhywogaethau o bryder i'r Undeb sydd wedi lledaenu'n eang. Felly, ni fydd ymatebion sy'n cynnig camau gweithredu nad ydynt yn cyfrannu'n uniongyrchol ac mewn modd y gellir ei gyfiawnhau at ddileu, rheoli poblogaeth neu gyfyngu'r 14 rhywogaeth hyn sydd wedi lledaenu'n eang yn perthyn i gwmpas yr ymgynghoriad hwn.
  2. Yn ogystal â chwestiynau'r ymgynghoriad, rydym wedi darparu nifer o awgrymiadau ac enghreifftiau. Rydym wedi cynnwys y rhain i helpu i egluro'r wybodaeth a'r dystiolaeth y byddai'n fuddiol eu derbyn mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn.
  3. Efallai y bydd ymatebwyr yn dymuno rhoi sylwadau ar faterion ehangach ynghylch rheoli rhywogaethau sydd o bryder i'r Undeb. Fodd bynnag, dylech gyfeirio at y canllawiau yn Atodiad D, gan y byddant yn eich helpu i sicrhau bod eich ymateb o fewn cwmpas yr ymgynghoriad.
4. Blwch 1. Nodyn i'r ymatebwyr

Nodwch, ni fydd ymatebion sy'n:

- i. cynnig ein bod ni'n eithrio rhywogaeth benodol o'r gofyniad i gael mesurau rheoli effeithiol ar gyfer rhywogaethau o bryder i'r Undeb sydd wedi lledaenu'n eang neu sy'n
- ii. cynnig ein bod ni'n eithrio rhywogaeth benodol o gyfyngiadau Rheoliad yr UE

yn gyson â'n rhwymedigaeth o dan y Prif Reoliad. Felly byddai awgrymiadau o'r fath y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad hwn.

### C1. A hoffech chi i'chymateb fod yn gyfrinachol?

### C2. Beth yw eich enw?

### C3. Beth yw eich cyfeiriad e-bost?

### C4. Pwy ydych chi'n ei gynrychioli?

Gallwch dicio mwy nag un blwch.

Y byd academiaidd

- Achub anifeiliaid
- Buddiannau dyfrol
- Busnes
- Elusen
- Corff cadwraeth
- Ffermwr
- Coedwigwr/perchennog/rheolwr coetir
- Asiantaeth llywodraeth
- Unigolyn
- Tirfeddiannwr
- Grŵp gweithredu lleol
- Awdurdod Lleol
- Corff anllywodraethol
- Perchennog glannau afon
- Cymdeithas fasnach
- Prifysgol/sefydliad ymchwil
- Cyflenwr cyfleustodau
- Milfeddyg
- Sŵ
- Arall

## **C5. Pa ranbarth daearyddol mae eich ymatebion chi'n ymwneud ag ef?**

- Lloegr
- Cymru
- Y ddau

Dim un o'r ddau / rhywle arall (blwch testun - nodwch)

## C6. Beth yw eich barn ar y nodau arfaethedig ar gyfer y mesurau rheoli sydd yn Atodiad A?

5. Nodwch a yw eich ateb yn ymwneud â rhywogaeth benodol sydd wedi lledaenu'n eang, nifer o rywogaethau penodol, neu'n ymateb cyffredinol ynghylch nodau rheoli yn fwy cyffredinol.
6. Mae'n ddefnyddiol rhoi rheswm dros eich barn. Os ydych chi'n anghytuno â'r nodau arfaethedig, eglurwch pam a rhowch dystiolaeth i egluro pam eich bod chi'n teimlo y dylid mabwysiadu nodau gwahanol. Cofiwch, dylai'r nodau ganolbwyntio ar ddileu, rheoli poblogaeth neu gyfyngu rhywogaeth sydd wedi lledaenu'n eang.
7. Er enghraifft, gallech ddweud: "Dwi ddim yn cytuno gyda nod X ar gyfer rhywogaeth Y, dwi'n teimlo y dylen ni anelu at Z mewn perthynas â'r rhywogaeth honno. Dyma'r rhesymau i gefnogi fy nadl..."

## C7. Beth yw eich barn ar y mesurau rheoli cyffredinol sydd yn Atodiad B?

8. Nodwch a yw eich ateb yn ymwneud â rhywogaeth benodol sydd wedi lledaenu'n eang, nifer o rywogaethau penodol, neu'n ymateb cyffredinol ynghylch nodau rheoli yn fwy cyffredinol.
9. Mae'n ddefnyddiol rhoi rheswm dros eich barn. Os ydych chi'n anghytuno â'r mesurau rheoli trwyddadwy arfaethedig, eglurwch pam a rhowch dystiolaeth i egluro pam eich bod chi'n teimlo y dylid mabwysiadu mesurau rheoli trwyddedu eraill. Cofiwch, dylai'r mesurau rheoli ganolbwyntio ar ddileu, rheoli poblogaeth neu gyfyngu rhywogaeth sydd wedi lledaenu'n eang. Rhowch gymaint o fanylion â phosibl yn eich ymateb, yn cynnwys rhesymau a thystiolaeth.
10. Yn ogystal â chynnig mesurau rheoli cyffredinol yn Atodiad B, rydym wedi cynnwys enghreifftiau o gamau rydym yn cynnig y dylid eu cymryd.
11. Er enghraifft, gallech ddweud: "Dwi ddim yn cytuno gyda nod X ar gyfer rhywogaeth Y, dwi'n teimlo y dylen ni anelu at Z mewn perthynas â'r rhywogaeth honno. Dyma'r rhesymau/dystiolaeth i gefnogi fy nadl..."

## **C8. Oes yna gamau gweithredu ychwanegol y dylid eu caniatáu fel mesur rheoli cyffredinol ar gyfer rhywogaeth benodol sydd wedi lledaenu'n eang?**

12. Nodwch a yw eich ateb yn ymwneud â rhywogaeth benodol, nifer o rywogaethau penodol, neu'n ymateb cyffredinol ynghylch nodau rheoli yn fwy cyffredinol.
13. Mae'r papur ymgynghori hwn (Atodiad B) yn cyflwyno ein cynigion ar gyfer mesurau rheoli cyffredinol effeithiol. Efallai eich bod yn gwybod am fesurau posibl eraill, nad ydym wedi'u cynnig yma, y dylid eu caniatáu yn eich barn chi. Rhowch gymaint o fanylion â phosibl yn eich ymateb, yn cynnwys rhesymau a thystiolaeth
14. Mae'n ddefnyddiol nodi sut mae unrhyw gam gweithredu a awgrymwch wedi'i fwriadu'n gyfiawnadwy i gyflawni un neu fwy o'r tri diben rheoli sef dileu, rheoli poblogaeth a chyfyngu (gweler yr adran "Mesurau rheoli" am esboniad).
15. Enghraifft fyddai: "Hoffwn i fesur rheoli X gael ei gynnwys ar gyfer y rhywogaeth hon. Byddai mesur X yn cyfrannu at reoli'r rhywogaeth oherwydd..."

## **C9. Oes yna gamau gweithredu ychwanegol na ddylid caniatáu eu defnyddio fel mesurau rheoli cyffredinol ar gyfer rhywogaethau sydd wedi lledaenu'n eang?**

16. Nodwch a yw eich ateb yn ymwneud â rhywogaeth benodol, nifer o rywogaethau penodol, neu'n ymateb cyffredinol ynghylch nodau rheoli yn fwy cyffredinol.
17. Mae'r papur ymgynghori hwn (Atodiad B) yn cyflwyno ein cynigion ar gyfer mesurau rheoli cyffredinol effeithiol. Efallai eich bod yn gwybod am fesurau posibl eraill, nad ydym wedi'u cynnig yma, y dylid eu caniatáu yn eich barn chi. Gallai hyn gynnwys mesurau y tybiwch y gallent gael eu cynnig gan ymatebwyr eraill i'r ymgynghoriad hwn. Hoffem wybod os ydych chi'n teimlo nad yw rhai camau gweithredu'n cyfrannu mewn modd y gellir ei gyfiawnhau at reoli rhywogaeth sydd wedi lledaenu'n eang, neu rywogaeth sydd wedi lledaenu'n eang benodol.
18. Eglurwch pam rydych yn teimlo na ddylid defnyddio'r mesur. Er enghraifft os nad ydych chi'n credu ei fod yn gweithio tuag at un neu fwy o'r tri diben rheoli (gweler yr adran "mesurau rheoli" am esboniad). Rhowch gymaint o fanylion â phosibl yn eich ymateb, yn cynnwys rhesymau a thystiolaeth.

19. Enghraifft fyddai: “Nid wyf am weld mesur rheoli X yn cael ei gynnwys ar gyfer y rhywogaeth hon. Rwy’n teimlo na fyddai mesur X yn cyfrannu at reoli’r rhywogaeth oherwydd...”

## **C10. Beth yw eich barn ar y mesurau rheoli trwyddadwy sydd yn Atodiadau C a D?**

20. Nodwch a yw eich ateb yn ymwneud â rhywogaeth benodol, nifer o rywogaethau penodol, neu a yw'n ymateb sy'n ymwneud â mesurau rheoli trwyddadwy yn fwy cyffredinol.

21. Mae'n ddefnyddiol rhoi rheswm dros eich barn. Os ydych chi'n anghytuno â'r mesurau rheoli cyffredinol arfaethedig, eglurwch pam a rhowch dystiolaeth i egluro pam eich bod chi'n teimlo y dylid mabwysiadu mesurau rheoli cyffredinol gwahanol. Cofiwch, dylai'r mesurau rheoli ganolbwyntio ar ddileu, rheoli poblogaeth neu gyfyngu rhywogaeth sydd wedi lledaenu'n eang.

22. Yn ogystal â chynnig mesurau rheoli cyffredinol, rydym wedi cynnwys enghreifftiau o gamau gweithredu rydym yn cynnig y dylid eu cymryd. Byddwch mor fanwl â phosibl yn eich ymateb, yn cynnwys rhesymau a thystiolaeth.

23. Er enghraifft, gallech ddweud: “Dwi ddim yn cytuno gyda nod X ar gyfer rhywogaeth Y, dwi'n teimlo y dylen ni anelu at Z mewn perthynas â'r rhywogaeth honno. Dyma'r rhesymau/dystiolaeth i gefnogi fy nadl...”

## **C11. Oes yna gamau gweithredu ychwanegol y dylid eu defnyddio fel mesurau rheoli trwyddadwy ar gyfer rhywogaethau sydd wedi lledaenu'n eang penodol?**

24. Nodwch a yw eich ateb yn ymwneud â rhywogaeth benodol, nifer o rywogaethau penodol, neu a yw'n ymateb sy'n ymwneud â mesurau rheoli trwyddadwy yn fwy cyffredinol.

25. Mae'r papur ymgynghori hwn (Atodiadau C a D) yn cyflwyno ein cynigion ar gyfer mesurau rheoli trwyddadwy effeithiol. Efallai eich bod yn gwybod am fesurau posibl eraill, nad ydym wedi'u cynnig yma, y dylid eu caniatáu yn eich barn chi. Rhowch gymaint o fanylion â phosibl yn eich ymateb, yn cynnwys rhesymau a thystiolaeth.

26. Mae'n ddefnyddiol nodi sut mae unrhyw gam gweithredu a awgrymwch wedi'i fwriadu'n gyfiawnadwy i gyflawni un neu fwy o'r tri diben rheoli sef dileu, rheoli poblogaeth a chyfyngu (gweler yr adran “Mesurau rheoli” am esboniad).

27. Enghraifft fyddai: “Hoffwn i fesur rheoli X gael ei gynnwys ar gyfer y rhywogaeth hon. Byddai mesur X yn cyfrannu at reoli'r rhywogaeth oherwydd...”

## **C12. Oes yna gamau gweithredu na ddylid caniatáu eu defnyddio fel mesur rheoli trwyddadwy ar gyfer rhywogaeth sydd wedi lledaenu'n eang benodol?**

28. Nodwch a yw eich ateb yn ymwneud â rhywogaeth benodol, nifer o rywogaethau penodol, neu a yw'n ymateb sy'n ymwneud â mesurau rheoli trwyddadwy yn fwy cyffredinol.

29. Mae'r papur ymgynghori hwn (Atodiadau C a D) yn cyflwyno ein cynigion ar gyfer mesurau rheoli trwyddadwy effeithiol. Efallai eich bod yn gwybod am fesurau posibl eraill, nad ydym wedi'u cynnig yma, y dylid eu caniatáu yn eich barn chi. Gallai hyn gynnwys mesurau y tybiwch y gallent gael eu cynnig gan ymatebwyr eraill i'r ymgynghoriad hwn. Hoffem wybod os ydych chi'n teimlo na ddylid ystyried rhai camau gweithredu i gyfrannu mewn modd y gellir ei gyfiawnhau at reoli rhywogaethau sydd wedi lledaenu'n eang, neu rywogaeth sydd wedi lledaenu'n eang benodol.

30. Eglurwch pam eich bod chi'n teimlo na ddylid defnyddio'r mesur, er enghraifft os nad ydych chi'n credu y byddai'n gweithio tuag at un neu fwy o'r tri diben rheoli. (gweler yr adran "mesurau rheoli" am eglurhad). Rhwng gymaint o fanylion â phosibl yn eich ymateb, yn cynnwys rhesymau a thystiolaeth

31. Enghraifft fyddai: “Nid wyf am weld mesur rheoli X yn cael ei gynnwys ar gyfer y rhywogaeth hon. Rwy'n teimlo na fyddai mesur X yn cyfrannu at reoli'r rhywogaeth oherwydd...”

## **Atodiad F – Cyngor ar ymatebion**

1. Rydym wedi cynnwys canllawiau ar gyflwyno tystiolaeth i ymgynghoriadau'r llywodraeth. Cymerwyd y canllawiau hyn o astudiaeth allanol a gynhaliwyd gan Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd, o'r enw “Better consultations, better evidence”.
2. Mae'r astudiaeth hon yn nodi sut i greu ymateb a fydd yn creu effaith, ac rydym wedi cynnwys y canllawiau hyn i helpu ymatebwyr i'r ymgynghoriad hwn.
3. Ar sail y canllawiau a roddwyd fel rhan o'r astudiaeth hon, gofynnwn i'ch ymateb:
  - i) Ganolbwyntio ar y cwestiynau a ofynnir. Nid yw sylwadau ar faterion eraill yn dod o fewn cylch gwaith y tîm sy'n cynnal yr ymgynghoriad.
  - ii) Nodi a ydych chi'n cefnogi neu'n gwrthwynebu'r cynnig.

- iii) Dangos effaith y cynnig ar yr ymatebydd fel unigolyn, gweithiwr proffesiynol, cwmni neu sefydliad.
- iv) Darparu rhesymau am y farn a roddir, gan gynnig rhagor o enghreifftiau. Mae ymatebion da yn darparu tystiolaeth i gefnogi eu barn, boed o'u data eu hunain neu ddadansoddiad a wnaed gan eraill. Mae tystiolaeth dda yn cynnwys darparu ffynonellau, methodoleg, cyfrifiadau a data crai lle bo'n briodol. Heb hyn ni all gweision sifil ddilysu a defnyddio'r data a ddarpeir.
- v) Darparu syniadau ar sut i wella'r cynnig, neu sut i liniaru effeithiau negyddol. Os yw ymatebwyr yn gwrthwynebu'r polisi, dylent ddarparu awgrymiadau eraill a fyddai'n helpu'r llywodraeth i gyflawni ei hamcan.
- vi) Nodi'n glir pwy sy'n ymateb, a phwy maent yn ei gynrychioli.
- vii) Bod yn glir a chryno, gan gychwyn gyda'r wybodaeth bwysig.

## Cyfrinachedd a diogelu data

Mae'r ddogfen ymgynghori a'r broses ymgynghori hon wedi'u cynllunio i gadw at yr Egwyddorion Ymgynghori a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet.

Gofynnir i grwpiau cynrychiadol roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli, a lle bo'n berthnasol, pwy arall yr ymgynghorwyd ag ef wrth ddod i'w casgliadau, pan fyddant yn ymateb.

Gall gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys data personol, gael ei chyhoeddi neu ei datgelu yn unol â'r cyfundrefnau mynediad at wybodaeth, sef Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf Diogelu Data 2018. Mae gennym rwymedigaethau, i ddatgelu gwybodaeth i dderbynwyr penodol neu i'r cyhoedd mewn rhai amgylchiadau. Bydd yr holl ymatebion yn cael eu rhannu i'w dadansoddi a'u cytuno ar y camau nesaf rhwng Defra a Llywodraeth Cymru.

Os ydych chi am i'r wybodaeth yr ydych yn ei darparu cael ei drin yn gyfrinachol, cofiwch, fel awdurdod cyhoeddus, fod yr Adran wedi ei rhwymo gan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac felly efallai y bydd yn rhaid iddi ddatgelu'r holl wybodaeth a ddarparwch. O ystyried hyn, byddai'n ddefnyddiol pe gallech esbonio i ni pam eich bod yn ystyried bod y wybodaeth a ddarparwyd gennych yn gyfrinachol. Os byddwn yn derbyn cais i ddatgelu'r wybodaeth byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cadw cyfrinachedd o dan bob amgylchiad. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhrychir gan eich system TG, ynddo'i hun, yn cael ei ystyried yn rhwymol ar yr Adran. Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal yn unol ag "Egwyddorion Ymgynghori" Swyddfa'r Cabinet ac mae i'w gael yn:

<https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance>. Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwynion am y broses, cyfeiriwch nhw at:

Consultation Coordinator  
Area 1C, 1<sup>st</sup> Floor  
Nobel House  
17 Smith Square  
London SW1P 3JR

Neu ebost: [consultation.coordinator@defra.gov.uk](mailto:consultation.coordinator@defra.gov.uk)